Ymchwil Gymdeithasol Rhif:
68/2021
Dyddiad cyhoeddi:
13/10/2021

# Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

## Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80391-058-1

Teitl: Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
Is-deitl: Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau

Awdur(on): Chloe Mills

Adroddiad Ymchwil Llawn: Mills, C. (2021). Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 68/2021
Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygur-dystiolaeth-anfantais-economaidd-gymdeithasol-chanlyniadau-anghyfartal

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn fel rhan o interniaeth PhD tri mis Llywodraeth Cymru a drefnwyd drwy Raglen Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC a Llywodraeth Cymru. Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth yn adlewyrchu'r derminoleg sy'n cael ei chynnwys yn y dystiolaeth. Felly, efallai na fydd yn adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn llawn. Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymrwymedig i'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Steven Macey
Yr Is-Adran Gymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

**Tabl Cynnwys**

Rhestr o dablau ... 1

Rhestr o ffigurau ... 1

Geirfa..... ... 2

1. Cyflwyniad ... 3

2. Methodoleg ... 12

3. Addysg ... 14

4. Gwaith ... 21

5. Safonau byw ... 27

6. Iechyd ... 34

7. Cyfiawnder ... 46

8. Cyfranogiad ... 52

9. Casgliadau ... 57

Cyfeiriadau ... 60

**Rhestr o dablau**

Tabl 1.1: Dolenni i adnoddau pellach: Cyffredinol. ... 11

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1.1: Y cysylltiadau rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau. ... 4

Ffigur 1.2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. ... 6

Ffigur 3.1: Cyflawniad yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. 15

Ffigur 3.2 Ffactorau sy'n gysylltiedig â'r 'bwlch cyrhaeddiad’. ... 19

Ffigur 4.1: Ffactorau sy'n gysylltiedig â'r premiwm tlodi. ... 23

Ffigur 6.1: Disgwyliad oes dynion a menywod yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ac amddifadedd lleiaf yng Nghymru ... 36

Ffigur 6.2: Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn yn ôl cwintel amddifadedd MALIC. ... 37

Ffigur 6.3: Llesiant meddwl yn ôl cwintel amddifadedd yng Nghymru. ... 39

Ffigur 6.4: Statws anabledd yn ôl amddifadedd ardal ... 41

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| Croestoriadedd | Natur rhyng-gysylltiedig categoreiddio cymdeithasol, er enghraifft hil, dosbarth a rhywedd sy'n creu systemau rhyngddibynnol o wahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. |
| EHRC | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| FSM | Prydau ysgol am ddim |
| LGBTQ+ | Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol, cwestiynu/cwiar, ac eraill, lle mae'r plws yn cynrychioli pob hunaniaeth a chymuned rywiol arall |
| FGC | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| JRF | Sefydliad Joseph Rowntree |
| ONS | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| SED | Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol |
| BMI | Mynegai màs y corff |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (neu "y Ddyletswydd") i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, wrth wneud penderfyniadau strategol (megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion), ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn golygu, yn awr, wrth wneud penderfyniadau, y bydd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyfrifoldeb cyfreithiol i ystyried sut y bydd eu penderfyniadau yn gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y Ddyletswydd yn allweddol wrth gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn enwedig wrth i Gymru adfer o'r pandemig COVID-19, ac ar gyfer yr hirdymor. Mae'r canllawiau yn nodi:


> "Ni fydd cychwyn y Ddyletswydd yn disodli nac yn cystadlu â dyletswyddau eraill fel Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r Ddyletswydd Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Ein bwriad yw y bydd cychwyn y Ddyletswydd yn ategu'r dyletswyddau hyn drwy gyfrannu ymhellach at nodau llesiant hirdymor Cymru, yn enwedig "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynus"."

1.2 Mae'r Ddyletswydd yn cyd-fynd â darnau eraill o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] a Deddf Cydraddoldeb 2010[2], yn ogystal â gwaith fel y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb[3] a oedd ar waith wrth ddatblygu'r Ddyletswydd[4]. Mae'r canllawiau'n cysylltu'n uniongyrchol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cefnogi ei diben cyffredin o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[2] Deddf Cydraddoldeb 2010
[3] Ffyniant i Bawb
[4] Roedd y strategaeth hon ar waith tra bod y Ddyletswydd yn cael ei datblygu a'i gweithredu. I gael manylion y Rhaglen Lywodraethu bresennol ewch i: Rhaglen lywodraethu | LLYW. CYMRU

diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol. Wrth ystyried tystiolaeth yn ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol, awgrymir yn y canllawiau bod angen ystyried tystiolaeth am dueddiadau'r dyfodol. Er bod cysylltiadau rhwng tueddiadau'r dyfodol ac anfantais economaidd-gymdeithasol y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae tueddiadau mewn anghydraddoldebau wedi'u hamlygu os ydynt yn berthnasol. Mae adnoddau eraill fel Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn[5] amlinellu'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar ein dyfodol cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, a gellir eu defnyddio i helpu i ddadansoddi effeithiau ar genedlaethau'r dyfodol ar gyfer grwpiau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Ffigur 1.1: Y cysylltiadau rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau.**




Ffynhonnell: Canllawiau ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

[5] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

1.3 Er mwyn cyflawni nod cyffredinol y Ddyletswydd, sef sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, mae'n bwysig bod gwaith llunwyr polisi yn cael ei lywio gan y dystiolaeth ddiweddaraf am anfantais economaidd-gymdeithasol a'r anghydraddoldebau canlyniadau allweddol sy'n deillio o’r anfantais honno. Mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus allu darparu tystiolaeth am sut y maent yn bodloni eu gofynion statudol o dan y Ddyletswydd, gan gynnwys ystyried tystiolaeth sy'n nodi unrhyw effeithiau tebygol sy'n deillio o benderfyniadau mewn perthynas â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a thystiolaeth o sut y rhoddwyd sylw dyledus i leihau anghydraddoldebau canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar bobl Cymru a sut mae'n arwain at anghydraddoldeb canlyniadau mewn meysydd allweddol, yn enwedig ar gyfer grwpiau penodol sydd mewn mwy o berygl o wynebu anfantais.


1.4 I gael rhagor o ganllawiau ar y Ddyletswydd ei hun, gweler yr adran Darllen Pellach ar ddiwedd y bennod hon.

**Anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru**

1.5 Ledled Cymru, mae 710,000 o bobl yn byw mewn tlodi ac mae 23 y cant o'r genedl yn byw mewn tlodi incwm cymharol (Llywodraeth Cymru, 2021g). Mae cyfraddau tlodi cyffredinol wedi aros yn sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru, ac er bod tlodi plant wedi bod yn gostwng, mae tlodi pensiynwyr wedi bod yn cynyddu (Llywodraeth Cymru, 2019f). Cafodd cyfanswm o 16 y cant o oedolion nad oeddent yn bensiynwyr yng Nghymru eu hystyried yn bobl sy'n wynebu amddifadedd materol yn 2019/20, sy'n golygu nad oeddent yn gallu fforddio pethau fel cadw'r tŷ yn ddigon cynnes (Llywodraeth Cymru, 2021e). Pan ofynnwyd iddynt pa mor anodd oedd talu eu biliau, roedd 68 y cant o oedolion o oedran gweithio yn gallu talu eu biliau heb unrhyw anawsterau, a dywedodd y gweddill ei bod yn anodd iddynt dalu eu biliau o bryd i'w gilydd (23 y cant) neu ei bod yn frwydr gyson (6 y cant). Mae Ffigur 1.2 yn dangos yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a lleiaf ledled Cymru yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog diweddaraf Cymru. Mae'r

ardaloedd o amddifadedd mwyaf wedi'u crynhoi yn ninasoedd a chymoedd y De ac mewn rhai trefi ar yr arfordir a ger y ffin yn y Gogledd. Mae'r ardaloedd hyn yn tueddu i fod yn ardaloedd mwyaf poblog Cymru hefyd.

**Ffigur 1.2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.**




Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

1.6 Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol anfanteisiol yn cael effaith hirdymor ar bob agwedd ar fywyd unigolyn, o'i eni hyd at fod yn oedolyn. Y rheswm am hyn yw bod gwahaniaethau mewn cyfoeth neu gyfle, h.y. amddifadedd economaidd-gymdeithasol, yn cyfyngu ar gyfleoedd a dewisiadau pobl mewn bywyd. Felly, mae tlodi yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol a chanlyniadau cysylltiedig â gwaith neu iechyd gwaeth. Yn benodol, gall anfantais economaidd-gymdeithasol arwain at **anghydraddoldebau canlyniadau** hirdymor**,** megis y canlynol sy'n cael eu disgrifio yn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol:

- Lefelau is o iechyd ac iechyd meddwl;
- Disgwyliad oes iach is;
- Sgiliau a chyrhaeddiad addysgol gwaeth;
- Gwaith cyflog is;
- Mwy o siawns o ddioddef trosedd a pheidio â theimlo'n ddiogel;
- Llai o gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus;
- Mwy o siawns o fyw mewn tai nad ydynt yn ddigonol; a
- Mynediad gwaeth at drafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus.

1.7 Mae'r anghydraddoldebau canlyniadau hyn yn dangos pwysigrwydd mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Nod y Ddyletswydd yw lleihau anghydraddoldeb trwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb sy'n bodoli o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys menywod, unig rieni, lleiafrifoedd hiliol ac ethnig, plant, pobl anabl, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (Alston, 2018).

1.8 Hefyd, mae'r pandemig COVID-19 wedi gwaethygu rhai o'r anfanteision a a oedd yn wynebu pobl yng Nghymru eisoes, gan ei fod wedi effeithio ar rai grwpiau llawer mwy nag eraill (Llywodraeth Cymru, 2020a); cyfeirir at effeithiau'r pandemig drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'r canllawiau ar gyfer y Ddyletswydd yn awgrymu y dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr effeithiau pellach posibl ar eu penderfyniadau wrth ystyried cymunedau buddiant a chymunedau lle yn ogystal â nodweddion gwarchodedig. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried effaith bellach croestoriadedd mewn perthynas â'r anghydraddoldeb canlyniadau a wynebir.

### Amcanion allweddol yr adolygiad llenyddiaeth hwn

1.9 Nod yr adroddiad hwn yw darparu ffynhonnell o dystiolaeth y gellir ei defnyddio pan fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu'r Ddyletswydd. Bydd y ddogfen hon yn crynhoi'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan roi sylw penodol i'r effeithiau ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â chymunedau a llefydd buddiant. Bydd yn adolygu'r dystiolaeth bresennol o effeithiau amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn chwe maes allweddol ar sail yr Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' (EHRC, 2018): **addysg, gwaith, iechyd, safonau byw, cyfiawnder a chyfranogiad**. Amlinellir amcanion y gwaith ymchwil a'r dull methodolegol yn Adran 2.

1.10 Nod yr adroddiad yw bod yn ganllaw cyfeirio gyflym sy'n darparu trosolwg cyffredinol o'r dystiolaeth mewn meysydd gwahanol sy'n ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Nid yw'n manylu'n helaeth ar bob

pwnc, ond mae'n cyfeirio'r darllenydd at wybodaeth ychwanegol ym mhob maes at ddibenion ymgynghori. Nid yw'r adroddiad yn rhagnodol ac nid yw'n rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer sut i weithredu'r Ddyletswydd, ond yn hytrach mae'n ceisio darparu gwybodaeth y gall llunwyr polisi ei hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol. Dyma grynodeb o dystiolaeth i'w hystyried wrth roi sylw dyledus i'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Nid yw'n disodli ymgynghori â phobl sydd â phrofiadau byw. Mae'n hollbwysig casglu safbwyntiau gan bobl y mae polisïau'n effeithio arnynt, oherwydd yn y pen draw, nhw yw'r gwir arbenigwyr.

**Diffiniadau**

1.11 Mae'r diffiniad o **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn yr adolygiad hwn yr un fath â'r diffiniad yn y Ddyletswydd: 'byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas'. Gall anfantais economaidd-gymdeithasol gynnwys rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt:

- byw mewn ardal o amddifadedd;
- byw heb lawer o gynilion neu ddim cynilion o gwbl;
- byw heb lawer o incwm neu ddim incwm o gwbl; a/neu
- wynebu amddifadedd materol (hynny yw, methu cael y pethau y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud sydd eu hangen ar gyfer safon byw dderbyniol – fel y gallu i brynu dodrefn newydd yn lle hen ddodrefn sydd wedi gweld dyddiau gwell, neu fforddio gwres digonol).

Mae'r elfen gyntaf a restrir yn y diffiniad uchod, "byw mewn ardal o amddifadedd" (a nodir fel arfer yng Nghymru trwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn wahanol i'r elfennau eraill sy'n ymwneud ag amgylchiadau unigolion neu aelwydydd. Nid yw pawb sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn wynebu amddifadedd eu hunain o reidrwydd o safbwynt metrigau unigol ar incwm, addysg neu iechyd ac ati (er y bydd hyn yn wir am lawer ohonynt). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddant yn parhau i wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol o ganlyniad i fyw mewn ardal o amddifadedd. Fel y gwelir yn yr adroddiad hwn, yn aml mae

tystiolaeth yn ymwneud ag anghydraddoldeb canlyniadau yn cael ei chyflwyno trwy ddefnyddio amddifadedd ardal. Mae gan y dull hwn rai manteision dros y dull unigol o safbwynt sefydlogrwydd, o ystyried sut mae unigolion yn gallu symud i mewn ac allan o amddifadedd yn y tymor byr.

1.12 Mae'r diffiniad hwn o anfantais economaidd-gymdeithasol yn gorgyffwrdd â'r syniad o **dlodi**. Mae tlodi yn gysyniad cymhleth ac aml-ddimensiwn, ac mae wedi'i ddiffinio mewn sawl ffordd wahanol dros amser. Yn y DU, y diffiniad cyffredinol o dlodi yw ennill 60 y cant o incwm aelwydydd canolrifol y DU. Yn fwy diweddar, mae'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol (2020) wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n crynhoi mesur newydd o dlodi sy'n ystyried, ymhlith ffactorau eraill, yr holl adnoddau materol, costau tai a gofal plant, a chostau sy'n deillio o nam. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rai ffynonellau sydd wedi ymchwilio'n benodol i dlodi, yn hytrach nag anfantais economaidd-gymdeithasol, ac wrth gyfeirio at y ffynonellau hyn gellir defnyddio'r gair tlodi fel term arall ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol.

1.13 Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi cyflwyno ei Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (the Fairer Scotland Duty), ac mae adroddiad ymgynghori[6] yn trafod y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol yn fanwl.

1.14 **Penderfyniadau strategol** yw'r rhai sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni ei bwrpas statudol arfaethedig dros gyfnod sylweddol. Mae **anghydraddoldeb canlyniadau** yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy yn y canlyniad a gaiff y rheini sydd wedi wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a’r canlyniad a gaiff gweddill y boblogaeth. Mae **cyrff cyhoeddus** perthnasol yn cynnwys Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG, Gwasanaethau Tân ac Achub, Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Cyllid Cymru, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

[6] Consultation on the socio-economic duty: analysis of responses (Llywodraeth yr Alban)

1.15 Mae'n bwysig tynnu sylw at y **croestoriadedd** sy'n bodoli wrth archwilio anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau. Croestoriadedd yw natur gysylltiedig categorïau cymdeithasol megis hil, dosbarth neu rywedd sy'n creu systemau anfantais sy'n gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn aml yn cael ei dwysáu gan ffactorau eraill sy'n gallu arwain at anghydraddoldebau canlyniadau, megis hil neu rywedd. Mae'r adolygiad hwn yn archwilio'r effaith ehangach y gall anfantais economaidd-gymdeithasol ei chael ar gymunedau penodol yng Nghymru, gan amlygu'r croestoriadedd mewn anghydraddoldebau canlyniadau sy'n wynebu grwpiau sy'n agored i niwed. **Cymunedau buddiant** yw'r rhai sy'n rhannu hunaniaeth e.e. unig rieni; gofalwyr; y rhai sy'n rhannu un nodwedd warchodedig neu fwy e.e. LGBTQ+, pobl hŷn; grwpiau o bobl sydd wedi rhannu profiad e.e. digartrefedd, yr un system iechyd/gofal cymdeithasol leol neu wasanaeth lleol. **Cymunedau lle** yw'r rhai sy'n rhannu lleoliad daearyddol (e.e. pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig). Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio **nodweddion gwarchodedig** fel oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol ddileu gwahaniaethu o bob math, hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.

1.16 Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn. Mae Adran 2 yn amlinellu methodoleg a chyfyngiadau'r gwaith hwn. Mae adrannau 3 i 8 yn crynhoi'r dystiolaeth ym meysydd addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a chyfranogiad, yn y drefn honno. Ar ddiwedd pob un o'r adrannau hyn ceir rhestr o ffynonellau allweddol ar gyfer darllen pellach. I gloi'r adroddiad, ceir casgliad o'r prif bwyntiau a amlinellir yn y ddogfen hon.

1.17 Mae Tabl 1.1 yn cynnwys dolenni i ddogfennau polisi allweddol ar gyfer darllen cefndir pellach.

**Tabl 1.1: Dolenni i adnoddau pellach: Cyffredinol.**

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Trosolwg a Chwestiynau Cyffredin

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Canllawiau

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Fframwaith craffu

Cymru sy'n fwy Cyfartal: y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19

Measurement framework for equality and human rights (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

A yw Cymru'n Decach? (2018) (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Llesiant Cymru: Adroddiad 2020

Cenedlaethau'r Dyfodol

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adolygiad cyflym o lenyddiaeth ar yr anghydraddoldebau canlyniadau allweddol sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol mewn chwe maes allweddol. Mae'r meysydd hyn yn seiliedig ar Fframwaith Mesur Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef: **addysg, gwaith, iechyd, safonau byw, cyfiawnder** a **chyfranogiad**.

2.2 Mae'r adolygiad hwn yn ystyried ffynonellau gwybodaeth amrywiol er mwyn archwilio effeithiau tymor byr a hirdymor anfantais economaidd-gymdeithasol ar bobl, yn bennaf pobl Cymru, gan ddefnyddio llenyddiaeth ymchwil academaidd a llenyddiaeth ymchwil y llywodraeth. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio tystiolaeth ledled y DU ond mae'n canolbwyntio ar ffynonellau o Gymru yn bennaf.

2.3 Defnyddiwyd tystiolaeth ddesg o sawl ffynhonnell allweddol, gan gynnwys adroddiadau gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, llenyddiaeth academaidd, a gwaith gan sefydliadau amhleidiol fel Sefydliad Joseph Rowntree. Oherwydd cyfyngiadau amser, cynhaliwyd adolygiad cyflym o lenyddiaeth yn hytrach nag asesiad tystiolaeth systematig neu gyflym, ac felly nid yw meini prawf cynnwys/hepgor penodol na dulliau gwerthuso wedi'u nodi. Yn gyffredinol, nodwyd tystiolaeth i'w chynnwys trwy ymgynghori ag arweinwyr ymchwil gymdeithasol yn Llywodraeth Cymru a thrwy chwilio allweddeiriau ar-lein. Y prif wefannau a ddefnyddiwyd oedd gwefan Llywodraeth Cymru, StatsCymru, a Google Scholar. Cynhaliwyd chwiliadau trwy chwilio am dermau perthnasol, e.e. *addysg* AC *amddifadedd* NEU *anghydraddoldeb NEU ganlyniadau* NEU *anfantais* AC *y Deyrnas Unedig* neu *Brydain* neu *Gymru*. Rhestrir y ffynonellau allweddol yr ymgynghorwyd â hwy ar ddiwedd pob adran.

2.4 Er mwyn cefnogi dealltwriaeth yr ymchwilwyr o'r cyd-destun polisi, a sicrhau deialog barhaus rhwng y gwaith ymchwil a gwaith tîm polisi Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyflwyniadau canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn rheolaidd er mwyn rheoli cwmpas y

prosiect. Manteision ymgymryd ag adolygiad o lenyddiaeth yn y modd hwn yw'r ffaith bod un person yn gallu cwblhau'r gwaith mewn cyfnod byr[7]. Felly, cyfyngwyd ar y cwmpas a diffiniwyd amcanion yr ymchwil fel a ganlyn:

- Cyflwyno darlun o anfantais economaidd-gymdeithasol a'r anghydraddoldebau cysylltiedig o ran canlyniadau yng Nghymru;
- Crynhoi gwaith ymchwil ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau cysylltiedig o ran canlyniadau ar gyfer cymunedau penodol, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a chymunedau a/neu lefydd buddiant.

2.5 Oherwydd y pandemig COVID-19, cynhaliwyd yr holl weithgareddau ymchwil, ymgynghoriadau gydag arweinwyr polisi, a chyflwyniadau o bell.

**Cyfyngiadau'r Dull**

2.6 Oherwydd cyfyngiadau amser, arfarnwyd y dystiolaeth eilaidd a adolygwyd yn ystod yr astudiaeth hon trwy ddefnyddio adolygiad llenyddiaeth yn hytrach na thechnegau adolygu systematig. Mae adolygiadau llenyddiaeth yn llai effeithiol o ran cynhyrchu sylfaen dystiolaeth nag adolygiadau systematig gan eu bod yn gallu amlygu rhagfarn dethol a rhagfarn cyhoeddiadau ac nid ydynt yn defnyddio methodoleg mor gadarn ag adolygiadau systematig, dadansoddiadau meta, neu asesiadau cyflym o'r dystiolaeth. Nid ydynt yn diffinio'r meini prawf hepgor/cynnwys nac yn gorfod pennu'r dulliau arfarnu na sut y daethpwyd i gasgliadau. Am y rhesymau hyn, dylid ystyried bod yr adolygiad llenyddiaeth sy'n cefnogi'r gwaith ymchwil hwn yn rhoi cipolwg ar ehangder a natur y sylfaen dystiolaeth, yn hytrach na chrynodeb cynhwysfawr o'r ymchwil sydd ar gael. Er y cymerwyd gofal i werthuso defnyddioldeb a chadernid pob ffynhonnell, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau.

[7]Gweler The Magenta Book (2020).

# 3. Addysg

**Anghydraddoldebau canlyniadau allweddol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol - Addysg.**

- Mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â deilliannau addysgol gwaeth (a elwir yn 'fwlch cyrhaeddiad’);
- Mae myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o fynd i'r brifysgol ac;
- Mae cyfraddau mynediad pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i mewn i addysg uwch yn cynyddu ac maent yn uwch yn ôl cyfran na chyfraddau mynediad myfyrwyr Gwyn.

**Cefndir**

3.1 Mae tua 4 miliwn o blant yn y DU yn byw mewn tlodi (JRF, 2020) ac yn 2019, roedd cyfanswm o 29 y cant o blant yng Nghymru mewn tlodi, sy'n un o'r cyfraddau uchaf yn y DU (Sefydliad Bevan, 2019). Mae Sefydliad Bevan (2019) yn nodi bod y sefyllfa yn amrywio o safbwynt newidiadau i ddangosyddion tlodi plant dros amser; mae cyfradd gyffredinol tlodi plant wedi gostwng ychydig yn ddiweddar ond mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi mewn teuluoedd mwy ac aelwydydd heb waith wedi cynyddu.

3.2 Gall tyfu i fyny mewn amgylchedd o amddifadedd economaidd gael effaith negyddol ar ddatblygiad meddyliol, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant, yn ogystal â'u canlyniadau iechyd ac addysgol (Treanor, 2012). Yn wir, nodwyd bod cysylltiad rhwng tlodi plant a chyfleoedd addysgol anghyfartal, gan fod plant sy'n wynebu anfanteision wrth dyfu i fyny (e.e. plant mewn teuluoedd tlotach, plant sy'n byw mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd, neu blant sy'n byw mewn tai annigonol) yn llai tebygol o ennill cymwysterau yn yr ysgol ac yn fwy tebygol o fod â pherfformiad a rhagolygon addysgol gwaeth (JRF, 2007; Hirsch, 2007). Cyfeirir yn aml at y gwahaniaeth hwn mewn deilliannau addysgol rhwng plant sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a phlant eraill fel y 'bwlch tlodi', 'y bwlch cyrhaeddiad', neu 'y bwlch'.


### Y bwlch cyrhaeddiad

3.3 Yn aml, defnyddir cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim fel dangosydd procsi ar gyfer tlodi, ac mae wedi'i gysylltu â chyrhaeddiad addysgol gwaeth (Llywodraeth Cymru, 2019a). Yng Nghymru yn 2019, roedd cyfanswm o 63.8 y cant o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen[8] o'i gymharu ag 84.2 y cant o blant nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (StatsCymru, 2019). Ar gyfer plant hŷn, roedd 29.5 y cant o'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cyrraedd y trothwy Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4[9], o'i gymharu â 53.8 y cant o blant nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2019c). Mae canlyniadau TGAU hefyd yn dangos graddau is ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2020h).

**Ffigur 3.1: Cyflawniad yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (2019)**

[8] Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru

[9] Mae'r trothwy Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4 yn set o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n cyfateb i bum cymhwyster TGAU gradd A*-C




Ffynhonnell: StatsCymru

3.4 Yn ogystal â deilliannau gwahanol ar gyfer cymwysterau ysgol, mae gan blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym Mlwyddyn 11 lai o siawns o gael cyflogaeth barhaus, ac maent yn fwy tebygol o dderbyn budd-daliadau diweithdra fel oedolion (Yr Adran Addysg, 2018).

3.5 Mae gwaith ymchwil a gwblhawyd trwy ddefnyddio Astudiaeth Carfan y Mileniwm wedi canfod bod y bwlch cyrhaeddiad yn amlwg mor gynnar â 5 oed yn achos geirfa a pharodrwydd i fynd i'r ysgol, a'i fod yn gwaethygu wedyn ar hyd y blynyddoedd ysgol. Hefyd, mae'r posibilrwydd y bydd datblygiad yn cael ei effeithio yn uwch os oes gan blentyn riant unigol, rhiant/rhieni â lefelau addysg is, neu os yw'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig (Hansen a Joshi, 2007).

3.6 Yn ogystal, mae cyfran y myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n mynd i'r brifysgol, yn enwedig prifysgolion sydd ar frig y tablau cynghrair, wedi bod yn anghymesur o isel yn hanesyddol, ac mae myfyrwyr o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol uchaf yn fwy tebygol o fynd i'r brifysgol (Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, 2015). Gall y bwlch hwn o safbwynt mynd ymlaen i addysg uwch arwain at anghydraddoldeb o ran

canlyniadau yn y dyfodol, gan fod graddedigion prifysgol yn tueddu i fynd ymlaen i weithio mewn galwedigaethau sy'n talu'n uwch. Fodd bynnag, mae'r bwlch mewn cyfranogiad addysg uwch rhwng myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch ac is wedi bod yn lleihau dros amser, ac nid yw'n ymddangos bod ffioedd dysgu uwch a gyflwynwyd yn 2012 yn atal myfyrwyr rhag ymrestru (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2012). Mae ffioedd dysgu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, felly nid yw cynnydd mewn ffioedd wedi effeithio ar Gymru i'r un graddau, gan fod ffioedd yn llai ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

**Croestoriadedd**

3.7 Yn gyffredinol, mae canlyniadau arholiadau merched yn well na chanlyniadau bechgyn, ac mae canlyniadau myfyrwyr o grwpiau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn well na chanlyniadau myfyrwyr gwyn, yn ôl y bwletin canlyniadau arholiadau diweddaraf (Llywodraeth Cymru, 2020h). Mae data gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (2021) yn dangos bod mwy o ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig yn mynychu'r brifysgol dros amser, a bod gan ddisgyblion Gwyn y cyfraddau mynediad isaf, yn ôl cyfran, rhwng 2006 a 2020.

3.8 Mae ffactorau sy'n gwaethygu'r sefyllfa o ran amddifadedd economaidd a chanlyniadau addysgol. Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yw'r dangosydd procsi mwyaf priodol sydd ar gael at ddibenion dadansoddiad ystadegol i ymchwilio i sut mae tlodi yn effeithio ar ganlyniadau ysgolion, ond mae ffactorau eraill yn berthnasol hefyd. Er enghraifft, mae grwpio ysgolion yn ôl anfantais hefyd yn dangos bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n dangos bod amddifadedd ar lefel ysgol (ar y raddfa ddaearyddol fwy, yn hytrach nag amgylchiadau unigolyn) yn cael effaith ar ganlyniadau yn y dyfodol hefyd (Yr Adran Addysg, 2018).


3.9 Mae tai, anghydraddoldebau iechyd, ac anfanteision y farchnad lafur (sy'n cael eu trafod yn yr adran isod ar Waith) yn gwaethygu'r anfanteision sydd eisoes yn wynebu unigolion sy’n dod o gefndir tlotach (Hirsch, 2007). Er

enghraifft, gallai diffyg amgylchedd addas i wneud gwaith cartref ei gwneud hi'n fwy anodd ymgysylltu â'r broses addysgol (JRF, 2020). Mae ethnigrwydd yn berthnasol hefyd, ac mae'n bosibl na fydd rhai cynlluniau, fel y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru, yn cyrraedd pob plentyn difreintiedig bob tro oherwydd materion fel rhwystrau diwylliannol yn achos rhai grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig (Craig et al., 2007; Hughes a Jones, 2021).

3.10 Mae'r ffactorau hyn yn pwysleisio natur gylchol a chroestoriadol tlodi ac yn amlygu pwysigrwydd torri'r cylch tlodi cyn gynted â phosibl, cyn i blant difreintiedig wynebu anfanteision eraill fel oedolion a methu â rhoi dechrau da mewn bywyd i'w plant eu hunain. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod rhieni cyfoethocach yn tueddu i gael plant cyfoethocach, ac mai'r prif sbardun ar gyfer hyn yw'r gwahaniaeth rhwng lefelau'r buddsoddiad mewn addysg plant (Ayyar et al., 2021). Amlygir y trosglwyddo anghydraddoldebau o un genhedlaeth i'r llall fel hyn yn Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol Llywodraeth Cymru[10] a'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol[11]. Mae Ffigur 3.2 yn defnyddio'r dystiolaeth hon ar natur gylchol a chroestoriadol tlodi, gan amlygu'r cysylltiadau rhwng ffactorau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r 'bwlch cyrhaeddiad' ac yn dangos bod gwahaniaethau mewn cyflawniad yn gallu deillio o ffactorau cymdeithasol eraill (safonau byw, hil, neu brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod) yn ogystal â ffactorau economaidd (e.e. amddifadedd). Mae'r cysylltiadau rhwng y ffactorau hyn yn amlygu'r 'we' tlodi a natur gylchol amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

[10] Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol Llywodraeth Cymru
[11] Cynllun ac amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru

**Ffigur 3.2 Ffactorau sy'n gysylltiedig â'r 'bwlch cyrhaeddiad'.**



**Darllen pellach ar addysg ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Chicken and egg: child poverty and educational inequalities

Education attainment: Responding to the Coronavirus pandemic

Entry rates into higher education

Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3

Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2019/20

JRF: Education in Wales

Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg

Credoau rhieni, eu hymddygiadau a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar

Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: Adroddiad

## 4. Gwaith

### Anghydraddoldebau canlyniadau allweddol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol - Gwaith

- Mae gwahaniaethau cyflog oherwydd hil, anabledd a rhyw yn dal i fodoli yng Nghymru;
- Mae menywod yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser ac ennill llai o arian na dynion;
- Mae gwaith am lai o dâl yn fwy tebygol o achosi straen neu fod yn beryglus;
- Mae incwm is yn ei gwneud yn fwy anodd fforddio hanfodion sylfaenol;
- Mae angen dathlu amrywiaeth, gan gynnwys niwroamrywiaeth, a rhaid mynd i'r afael â rhwystrau i ymuno â'r gweithlu.

**Cefndir a chyd-destun Cymru**

4.1 Os yw unigolyn yn gweithio, nid yw hynny'n golygu na fydd yn wynebu tlodi. Yn y DU, mae tlodi mewn gwaith wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf ac mae cyfanswm o 12.7 y cant o weithwyr yn byw mewn tlodi oherwydd cyflog isel neu oriau cyfyngedig (JRF, 2020). Mae 56 y cant o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn dod o aelwydydd sy'n gweithio, o'i gymharu â 39 y cant 20 mlynedd yn ôl (JRF, 2020). Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio ar gyfradd o tua saith o bob deg (Llywodraeth Cymru, 2019d) ac mae teuluoedd â phlant yn wynebu'r risg fwyaf o dlodi mewn gwaith, yn enwedig unig rieni.

4.2 Mae gwaith cyflog isel yn cyfrannu'n fwy nag unrhyw beth arall at dlodi mewn gwaith, oherwydd ei bod yn anodd iawn dianc rhag tlodi os nad ydych chi’n cael eich talu ddigon neu os nad oes llawer o swyddi sy'n talu'n dda yn eich ardal (JRF, 2020). Yng Nghymru, roedd 26 y cant o weithwyr cyflogedig yn ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2017/18 (JRF, 2020). Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gyflog gwirfoddol sydd, yn ôl y sefydliad, yn agosach at yr hyn sydd ei angen ar bobl i dalu costau bob dydd. Ar hyn o bryd, y Cyflog Byw Gwirioneddol yw £9.50 yr awr o'i gymharu â Chyflog Byw Cenedlaethol y DU, sy’n £8.91 yr awr i weithwyr dros 23 oed. Nodwyd bod

lefelau cyflog yng Nghymru ychydig yn is na'r DU gyfan. Enillion wythnosol gros canolrifol ar gyfer oedolion sy'n gweithio'n llawn amser yng Nghymru oedd £537.80 ym mis Ebrill 2020, o'i gymharu â chyfartaledd y DU, sef £585.50[12] (Llywodraeth Cymru, 2020d). Dengys ystadegau o fis Mai 2021 yn ymwneud â gwaith yng Nghymru fod y gyfradd diweithdra yn 4.4 y cant, sy'n agos i gyfartaledd y DU (Llywodraeth Cymru, 2021d).

4.3 Mae rhai sectorau yn fwy tebygol o gyfrannu at dlodi mewn gwaith, er enghraifft llety (e.e. gwestai), arlwyo, manwerthu a gofal preswyl, sydd hefyd yn tueddu i gyflogi cyfrannau uwch o fenywod (EHRC, 2018). Mae Adran 4.7 yn trafod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fanylach.

4.4 Mae wynebu amddifadedd economaidd mewn gwaith yn golygu na fydd gan unigolyn y swm gofynnol o arian i ddiwallu anghenion sylfaenol neu ddelio ag argyfyngau annisgwyl, er ei fod yn ennill cyflog. Agwedd arall i'w hystyried yw'r ffaith mai'r aelwydydd tlotaf yn aml sy'n talu symiau'r mwyaf am nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, fel trafnidiaeth gyhoeddus a biliau'r aelwyd – y premiwm tlodi' yw hyn (Heykoop, 2018). Er enghraifft, gall hyn ddeillio o ddefnyddio mesuryddion rhagdalu ar gyfer tanwydd neu beidio â newid i'r tariff tanwydd rhataf (o bosibl oherwydd nad ydynt yn gwybodaeth sut i wneud hynny, neu y dylent wneud hynny, neu awydd i osgoi risg), neu gael credyd cost uchel. Mae llawer o ffactorau yn cyfrannu at y premiwm tlodi, ac mae gwaith ymchwil wedi awgrymu y gallai cost y premiwm tlodi fod tua £490 y flwyddyn fesul aelwyd. Mae Tabl 4 yn rhestru rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn (Davies et al., 2016).

[12]Mae'r ffigur hwn yn cynnwys pwysoli i gyfrif am gyflogau uwch yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr o'i gymharu â'r DU gyfan.

**Ffigur 4.1: Ffactorau sy'n gysylltiedig â'r premiwm tlodi.**

**Ffactorau sy'n gysylltiedig â'r premiwm tlodi**[13]

- Heb newid i'r tariff tanwydd rhataf
- Ffactorau sy'n ymwneud â lle mae pobl yn byw
- Defnyddio credyd cost uwch
- Defnyddio mesuryddion rhagdalu
- Peidio â thalu trwy ddefnyddio'r dull rhataf o dalu'r bil
- Yswirio eitemau penodol
- Talu i dderbyn biliau papur
- Talu i gael gafael ar arian

Ffynhonnell: Davies et al, 2016

4.5 Mae gweithio'n rhan-amser neu oriau ansicr, neu weithio yn yr 'economi gìg' (e.e. dosbarthu bwyd, cludwr neu wasanaeth fflagio cerbyd), yn golygu y gall rhywun weithio ar adegau nad ydynt yn ffafriol i drefnu gofal plant digonol. Ar y llaw arall, mae cael plant yn gallu gyfyngu ar hyblygrwydd pobl a'r oriau maent am eu gweithio. Er gwaetha'r ffaith y bydd gweithwyr eisiau gweithio mwy o oriau, mae'n bosibl na fydd yr oriau ar gael; mewn gwirionedd, mae 18 y cant o weithwyr sy'n ennill cyflog isel yn dweud y byddent yn hoffi gweithio mwy o oriau, o'i gymharu ag 8 y cant o'r holl weithwyr nad ydynt yn ennill cyflog isel (JRF, 2020). Roedd 10 y cant o'r holl gyflogaeth yn 2016/17 yn gyflogaeth heb sicrwydd, megis gwaith dros dro, gwaith asiantaeth neu waith hunangyflogedig, ac mae'n bosibl na fydd pobl mewn cyflogaeth heb sicrwydd yn cael yr un hawliau ac amddiffyniadau allweddol yn y gwaith, a gall hynny effeithio ar eu cyflog (EHRC, 2018).

**Croestoriadedd**

4.6 Mae bylchau cyflog a thlodi mewn gwaith yn effeithio ar rai grwpiau yn llawer mwy nag eraill. Mae gweithwyr anabl a gweithwyr o Leiafrifoedd Ethnig mewn mwy o berygl o wynebu tlodi mewn gwaith. Mae gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae aelwydydd sy'n cynnwys unigolyn anabl yn fwy tebygol o wynebu problemau ariannol (EHRC, 2018). Yn ogystal, mae pobl anabl yn

[13] Sylwer: Rhestrir ffactorau yn nhrefn eu cost i bobl, o’r lleiaf i’w mwyaf

llai tebygol o weithio mewn galwedigaethau cyflog uchel, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl, ac mae pobl anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl nad oes ganddynt anabledd (EHRC, 2018). Mae adroddiad Llesiant Cymru 2020 yn dangos bod bylchau cyflog yn bodoli ar gyfer menywod, pobl anabl a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Y bylchau cyflog ar gyfer y grwpiau hyn yw'r lleiaf a gofnodwyd erioed, oherwydd, er enghraifft, mae'r bwlch cyflog ar gyfer menywod sy'n gweithio'n llawn amser wedi bod yn cau trwy gynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol ac amrywiaeth alwedigaethol (Connolly a Gregory, 2008). Yng Nghymru, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau (4.3 y cant) yn llai na chyfartaledd y DU (7.3 y cant), wedi'i fesur ar sail y gyfradd amser llawn fesul awr ganolrifol (Llywodraeth Cymru, 2020d). Fodd bynnag, mae bylchau'n parhau mewn sawl maes, ac mae'r rhesymau amdanynt yn gymhleth.

4.7 Mae cyfranogiad menywod mewn cyflogaeth wedi'i ddadansoddi'n helaeth, ac mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod disgwyliadau diwylliannol yn ymwneud â chael plant a darparu gofal plant yn cael effaith negyddol ar gyflogau a gyrfaoedd menywod, gan gyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (Boeckmann et al., 2014). Hefyd, mae menywod yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser (yn aml oherwydd cyfrifoldebau gofal) neu mewn galwedigaethau cyflog isel (EHRC, 2018), lle mae llai o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad. Yn wir, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng gwaith rhan-amser ac enillion llai ar gyfer menywod yn y dyfodol (Connolly a Gregory, 2008), sydd unwaith eto yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Gall disgwyliadau diwylliannol arwain at ragor o anghydraddoldebau o ran canlyniadau i leiafrifoedd ethnig (Dale et al., 2008). Er enghraifft, gall rhai diwylliannau, megis diwylliannau De-ddwyrain Asia, roi mwy o bwyslais ar fod yn rhiant, sy'n arwain at ragor o gyfrifoldebau gofal plant ar gyfer menywod sy’n eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn rhai agweddau ar gyflogaeth fel teithio ymhell o'u cartref (Ibid). Mae'r cyfyngiad hwn ar gymryd rhan yn y farchnad lafur i fenywod mewn rhai diwylliannau yn anghydraddoldeb canlyniadau allweddol sy'n cynyddu'r bylchau mewn cyflogau ar sail ethnigrwydd a rhyw ym Mhrydain.

4.8 Hefyd, mae'n bosibl y bydd menywod wedi wynebu profiadau negyddol neu hyd yn oed wahaniaethu yn ystod beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth neu ar ôl iddynt ddychwelyd o absenoldeb mamolaeth. Yn ôl gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd 48 y cant o fenywod yng Nghymru wedi dioddef effeithiau negyddol yn y gweithle o ganlyniad i gael plant (Adams et al., 2016). Mae'r profiadau hyn o ran bod yn rhiant a gweithio (y 'bwlch cyflog rhianta') yn dangos anghydraddoldebau canlyniad hefyd, gan fod y gwaith ymchwil wedi amlygu'r ffaith bod mamau nad ydynt yn wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol neu sydd â llai o blant yn llai tebygol o ddioddef yr agweddau negyddol hyn ar fod yn fam a gweithio.

4.9 Yn ôl adroddiad diweddar (Llywodraeth Cymru, 2021c), mae'r bwlch cyflog anabledd yn 9.9 y cant yng Nghymru, sy'n golygu bod pobl anabl yng Nghymru yn ennill 9.9 y cant yn llai yr awr na phobl nad ydynt yn anabl. Er bod y ganran hon yn is na'r bwlch yn y DU gyfan (12.2 y cant), mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn. Dangosodd Adroddiad JRF yn 2018 fod 39 y cant o bobl anabl yng Nghymru mewn tlodi o'i gymharu â 22 y cant o bobl nad ydynt yn anabl, a bod y gyfradd hon yn uwch yng Nghymru na gweddill y DU (JRF, 2018). Mae'r un adroddiad yn 2020 yn trafod sut y bydd pandemig y coronafeirws yn effeithio ar lefelau tlodi, gan waethygu problemau o ran gwaith, incwm, a meysydd eraill ar gyfer y rhai a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi (JRF, 2020).

4.10 Mae'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn fenter ledled y DU i annog cyflogwyr i feddwl yn wahanol am gyflogi pobl anabl, gan gofio'r model cymdeithasol o anabledd sy'n ceisio dileu'r rhwystrau mewn cymdeithas ac mewn cyflogaeth sy'n analluogi pobl â namau. Mae ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth (amrywiadau naturiol yn swyddogaeth yr ymennydd, e.e. awtistiaeth, dyslecsia neu ADHD) yn cynyddu'n fyd-eang hefyd. Mae manteision gweithlu niwroamrywiol yn dod i'r amlwg, wrth i gyflogwyr fanteisio ar gryfderau a thalentau gwahanol eu gweithwyr cyflogedig niwroamrywiol i feddwl yn wahanol i eraill yn eu tîm (CIPD, 2018). Mae

Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn dilyn y Cynllun Hyderus o ran Anabledd ac yn gweithredu'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

4.11 Gall amodau gwaith ac anghydraddoldebau yn y gwaith gyfrannu at anghydraddoldebau eraill o ran canlyniadau hefyd, megis iechyd (gweler yr adran Iechyd am ragor o wybodaeth). Mae gwaith heb sicrwydd yn ogystal ag incwm isel neu ansicr yn cyfrannu at amddifadedd economaidd a materol, sy'n achosi straen ac yn cael effaith negyddol ar lesiant. Hefyd, gall gwaith heb sicrwydd neu waith am dâl isel gael effaith uniongyrchol ar faint y mae pobl yn gallu fforddio ei fwyta (gweler yr adran Safonau Byw am fwy o wybodaeth am ansicrwydd bwyd). Mae gweithwyr incwm isel yn fwy tebygol o wynebu amodau gwaith sy'n achosi straen neu sy'n beryglus, gan gynnwys peryglon ffisegol neu gemegol, oriau hir neu afreolaidd, gwaith shifft, neu waith llaw sy'n anodd yn gorfforol, gan effeithio ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol (Siegrist et al., 2009).

**Darllen pellach ar waith ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Coronafeirws a'r effaith ar bobl anabl
Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Cymru sy'n fwy Cyfartal
Adroddiad JRF: Poverty in Wales 2020
Neurodiversity at Work
Paying to be poor: Uncovering the scale and nature of the poverty premium
Pregnancy and maternity discrimination research findings
Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr Blynyddol Llywodraeth Cymru o 2019-20

## 5. Safonau byw

### Cefndir

5.1 Mae cael lle diogel, cynnes a digonol i fyw, a gallu cael digon o fwyd maethlon, yn elfennau allweddol o ffordd o fyw iach a hapus. Mae tai o ansawdd da yn gwella llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol, ond mae pobl sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi o ansawdd gwael sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth yn y dyfodol. Er bod gwaith ymchwil yn dangos bod cyflwr tai yng Nghymru wedi gwella dros y 10 mlynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2019f), mae sawl mater yn parhau i gael effaith anghymesur ar y rhai sy'n wynebu anfantais gymdeithasol neu economaidd, gan gynnwys digartrefedd, tlodi tanwydd, tai anfforddiadwy, a diffyg diogelwch a mannau gwyrdd.

**Anghydraddoldebau canlyniadau allweddol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol - Safonau Byw.**

- Mae byw mewn tai annigonol yn effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol;
- Mae pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fyw mewn amodau gorlawn, ac maent mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref a chysgu allan;
- Mae'n anodd i rai pobl fod yn berchen ar gartref, yn enwedig gweithwyr ar gyflog is;
- Mae ardaloedd difreintiedig yn tueddu i fod â lefelau is o fynediad i fannau gwyrdd;
- Mae rhai aelwydydd yng Nghymru yn parhau i ddioddef tlodi tanwydd (nid oes ganddynt wres na dŵr poeth digonol);
- Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu eich bod yn fwy tebygol o wynebu ansicrwydd bwyd a bod gennych lai o fynediad at amrywiaeth o fwydydd iach fforddiadwy;
- Mae unigolion o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent ac;
- Mae llety rhent o ansawdd gwaeth yn gyffredinol.

**Hygyrchedd ac ansawdd tai**

5.2 Mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Shelter Cymru, Tai Pawb, a Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn dangos bod y galw am dai yng Nghymru yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd (Hoffman, 2019). Mae problemau eraill yng nghyswllt tai yng Nghymru yn cynnwys: cysgu allan a digartrefedd, rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol, fforddiadwyedd ar gyfer pobl sy'n rhentu, hygyrchedd ar gyfer pobl anabl, diffyg sicrwydd deiliadaeth, a chyflwr tai annigonol (Hoffman, 2019).


5.3 Costau tai yw un o'r ffactorau mwyaf sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn y DU, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â'r costau tai uchaf (e.e. Llundain). Yn aml, mae mesurau sy'n edrych ar incwm cyn ystyried costau tai yn cuddio tlodi, gan ddangos effaith costau tai ar sefyllfa ariannol a chyllidebau pobl (Hirsch a Stone, 2020). Mae costau tai cynyddol, gofynion fforddiadwyedd llymach, a gofynion i dalu blaendal uchel yn arbennig yn eithrio prynwyr tro cyntaf o'r farchnad, gan arwain at yr hyn y mae llawer yn ei alw'n 'argyfwng tai' (McMullan et al., 2021). Gall problemau yn ymwneud â'r cyflenwad tai fod yn waeth mewn ardaloedd gwledig, oherwydd twristiaeth, amaethyddiaeth, neu drigolion sy'n prynu ail gartrefi, gan ei gwneud yn anodd i bobl mewn ardaloedd gwledig brynu tai (FGC, 2020).

5.4 Mae cyfraddau tlodi rhentwyr preifat a chymdeithasol yng Nghymru ymysg yr uchaf yn y DU (JRF, 2020). Mae rhentu'n arbennig o ddrud i'r rhai sydd ar gyflogau isel, pobl ifanc, neu'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser (FGC, 2020). Mae hyn yn dangos sut mae tai'n rhyngweithio â meysydd eraill o anfantais economaidd-gymdeithasol posibl, ac yn eu gwaethygu, megis gwaith. Mae rhenti uchel yn y sector preifat yn ei gwneud yn anodd i bobl fforddio prynu cartref, drwy leihau eu gallu i gynilo; hefyd, mae'r gost o brynu cartref wedi codi'n gyflymach na chyflogau, gan ei gwneud yn anodd i lawer o bobl ledled y DU gael troed yn y farchnad dai (McMullan et al., 2021). Mae fforddio cartref yn fwy anodd i rai grwpiau, fel y rhai sy'n gweithio llai o oriau, y rhai sy'n ennill cyflogau isel, pobl sengl, neu bobl ifanc, ac mae'n dwysáu'r cylch rhentu anfforddiadwy (Ibid). Fodd bynnag, oherwydd cynlluniau'r llywodraeth

(e.e. Cymorth i Brynu), mae cyfran y bobl ifanc 25 i 34 oed sy'n berchen ar eu cartref eu hunain wedi bod yn cynyddu (Partridge, 2020).

5.5 Yn gyffredinol, mae tai cymdeithasol yn fwy effeithlon o ran ynni oherwydd eu bod yn fwy newydd ac oherwydd y gwelliannau a wnaed i dai cymdeithasol er mwyn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae stoc dai Cymru yn hŷn na stoc dai gweddill y DU, ac yn gyffredinol mae gan y sector rhentu preifat y stoc dai hynaf a chyfran uwch o dai o ansawdd gwael (Llywodraeth Cymru, 2019g). Mae hanner y boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent o'i gymharu â llai na thraean o'r boblogaeth Gwyn (Clifford, 2020). Mae ardaloedd o amddifadedd yn tueddu i fod yn fwy gorlawn hefyd, sy'n cael effaith negyddol ar lesiant. Dangosir hyn yn ffigur 5.2.

**Ffigur 5.1: Gorlenwi yng Nghymru yn ôl amddifadedd**




Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

5.6 Mae cysgu allan a digartrefedd yn destun pryder ledled y DU a Chymru oherwydd diwygiadau i nawdd cymdeithasol a lleihau cyllidebau awdurdodau lleol i fynd i'r afael â digartrefedd (EHRC, 2018). Mae digartrefedd a chysgu allan yn gorfodi pobl i wynebu amodau llym, ac mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac iechyd corfforol gwael yn ogystal â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad troseddol (Fitzpatrick et al., 2015). Mae bod yn ddigartref neu fod mewn perygl o fod yn ddigartref yn gysylltiedig â cholli

mwy o ddiwrnodau ysgol ar gyfer plant sy'n byw ar yr aelwydydd hyn (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn ogystal, yn y DU, mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Shelter England, 2020). Mae tystiolaeth sy'n cefnogi hyn wedi'i chanfod yng Nghymru hefyd (Shelter Cymru, 2013), ond mae angen cynnal archwiliad mwy cyfoes. Hefyd, mae tystiolaeth yn dangos bod canran anghymesur o'r boblogaeth ddigartref ehangach yn bobl ifanc LGBTQ+, a bod y prif berygl o fod yn ddigartref yn deillio o deuluoedd yn chwalu a/neu gam-driniaeth yn y cartref ar ôl i bobl ifanc ddweud eu bod yn LGBTQ+ (Llamau, 2019).

**Tlodi tanwydd**

5.7 Mae cyfleusterau gwresogi a dŵr poeth effeithiol ac effeithlon yn allweddol wrth ddarparu tai digonol. Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar lawer o bobl yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn ei ddiffinio fel gwario mwy na 10 y cant o incwm eich aelwyd ar wresogi eich cartref. Mae tlodi tanwydd yn broblem gymhleth sy'n cael ei heffeithio gan lawer o ffactorau, gan gynnwys incwm aelwydydd, cost ynni, ac effeithlonrwydd ynni cartrefi pobl (Llywodraeth Cymru, 2020i). Mae tlodi tanwydd yn fwy tebygol o effeithio ar bobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai mewn cymunedau buddiant neu gymunedau lle (e.e. unig rieni, pobl hŷn, pobl anabl, neu'r rhai mewn ardaloedd gwledig) (Llywodraeth Cymru, 2010).

5.8 Mae byw mewn cartref oer yn cael effaith sylweddol ar lesiant corfforol a meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae'r effeithiau ar iechyd yn cynnwys mwy o afiechydon anadlol a straen, yn ogystal â marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf. Mae diffyg ystafell digon cynnes i astudio ynddi yn gallu effeithio ar gyflawniad addysgol a chynyddu absenoldeb o'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2010). Hefyd, mae biliau tanwydd uchel yn effeithio ar faint o arian sydd ar gael ar gyfer bwyd, gweithgareddau cymdeithasol neu hanfodion materol eraill, gan ryngweithio â meysydd eraill o anfantais gymdeithasol ac economaidd. Ar lefel macro, mae tlodi tanwydd yn cynyddu'r straen ar y GIG ac mae'n gallu cael effaith negyddol ar yr economi oherwydd lefelau uwch o salwch.

**Mannau gwyrdd**

5.9 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng mynediad i fannau gwyrdd ac iechyd a llesiant gwell, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol gwell a chyfraddau marwolaeth gwell (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2020). Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn dangos bod llai o fannau gwyrdd cyhoeddus o ansawdd da ar gael i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd (Schule et al., 2019). Gall y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd fyw mewn ardaloedd mwy llygredig yn amgylcheddol, gan waethygu anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae hyn yn dangos y cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd, safonau byw a thlodi. Yn wir, mae tystiolaeth yn dangos bod y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yn elwa yn fwy na neb o fannau gwyrdd (fel cyfraddau curiad y galon gwell neu lai o achosion o ddiabetes math 2) (Twohig-Bennett a Jones, 2018). Yn ogystal, gall plant mewn amgylchiadau anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn agored i fwy o beryglon amgylcheddol, megis ysmygu neu lygredd aer, a allai effeithio ar iechyd a datblygiad plant trwy gyfnodau cenhedlu, plentyndod a phan fyddant yn oedolion (Sefydliad Iechyd y Byd, 2021).

5.10 Gall yr effeithiau sy'n deillio o ddiffyg mannau gwyrdd daro cymunedau buddiant a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig mewn ffordd anghymesur, gan fod pobl nad ydynt yn defnyddio mannau gwyrdd yn tueddu i fod yn fenywod, pobl hŷn, unigolion o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl a'r rhai mewn iechyd gwael, pobl o statws economaidd-gymdeithasol is a phobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd (Boyd et al., 2018). Yn ôl gwaith ymchwil o Loegr, mae pobl Dduon bedair gwaith yn fwy tebygol na phobl wyn o fyw mewn cartrefi heb unrhyw ofod tu allan (SYG, 2020).

5.11 Yng Nghymru, mae mannau gwyrdd yn hygyrch ar y cyfan, a nododd 71 y cant o'r bobl a holwyd ei bod yn hawdd iawn iddynt gerdded i fannau gwyrdd lleol, a nododd 15 y cant fod hynny’n gymharol hawdd. Hefyd, roedd 84 y cant o bobl naill ai'n fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ag ansawdd y mannau gwyrdd lleol (Llywodraeth Cymru, 2021e). Fodd bynnag, mae'r

Mynegai Mannau Gwyrdd yn dangos nad yw dros 200,000 o bobl yng Nghymru[14] yn byw o fewn taith gerdded 10 munud o fan gwyrdd (Fields in Trust, 2020). Mae aelwydydd mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o gael mynediad at ardd, felly hefyd pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol neu gartrefi rhent preifat (Llywodraeth Cymru, 2021e).

**Ansicrwydd bwyd**

5.12 Mae mynediad at fwyd yn faes arall lle mae tlodi, iechyd a safonau byw yn plethu. Mae banciau bwyd a'r defnydd o fanciau bwyd yn cynyddu er gwaethaf y ffaith bod digonedd o fwyd ar gael yn y DU, yn ôl Cynghrair Tlodi Bwyd De Cymru (2019). Nid diffyg bwyd sy'n achosi ansicrwydd bwyd, ond ffactorau eraill, gan gynnwys: yr anallu i dalu am fwyd oherwydd incwm isel parhaol neu dros dro; diffyg gwybodaeth am faeth a choginio; diffyg mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach; a diffyg cyfleusterau coginio neu anallu i'w defnyddio (Cynghrair Tlodi Bwyd De Cymru, 2019). Mae'r darlun amlweddog hwn o ansicrwydd bwyd yn dangos cymhlethdod mynd i'r afael â'r mater, ac mae angen sicrhau cymorth gan sawl maes cysylltiedig.

5.13 Mae pobl ar incwm is yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau ac maent yn fwy tebygol o ddioddef clefydau sy'n gysylltiedig â deiet. Hefyd, mae ansicrwydd bwyd yn cael effaith negyddol ar iechyd plant, gan effeithio ar eu datblygiad corfforol a meddyliol (gweler yr adran Iechyd am ragor o wybodaeth). Gall gwledigrwydd ardal effeithio ar fynediad at fwyd iach gan fod llai o archfarchnadoedd neu siopau eraill yn gwerthu bwyd, a llai o amrywiaeth o ran y mathau o siopau sydd ar gael, gan arwain at yr hyn a elwir yn 'anialwch bwyd'. Yn wir, gellir disgrifio 8 y cant o ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru a Lloegr fel anialwch bwyd, h.y. ardaloedd lle mae'n anodd cael gafael ar ystod eang o fwydydd iach (Social Market Foundation, 2018). Mae'n fwy anodd i bobl anabl a'r rhai sydd heb gar oresgyn y rhwystr hwn. Fel y soniwyd eisoes, nid yw bod mewn gwaith yn atal pobl rhag wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ac mae'r un peth yn wir am fwyd, gan fod un o bob chwech o bobl sy'n cael eu cyfeirio at fanciau bwyd

[14] Roedd fersiwn blaenorol o'r adroddiad hwn yn cynnwys camgymeriad yn nodi bod yr ystadegyn hwn yn berthnasol i'r DU yn hytrach na Chymru. Mae'r gwall hwn bellach wedi'i gywiro.

Ymddiriedolaethau Trussell yn gweithio (Alston, 2018). Hefyd, mae'r pandemig wedi amlygu anghydraddoldebau yn system fwyd y DU a'r angen cynyddol i'r llywodraeth ddiogelu'r economi er mwyn lleihau ansicrwydd bwyd (Power et al., 2020).

**Croestoriadedd**

5.14 Mae'r adran hon wedi amlygu'r gwahaniaethau sy'n dod i'r amlwg wrth edrych ar safonau byw grwpiau gwahanol, oherwydd, er enghraifft, bod pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asia a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent sy'n fwy tebygol o fod o ansawdd gwael. Mae costau byw pobl anabl yn uwch na phobl eraill, ac mae gwaith ymchwil yn dangos bod oedolion anabl yn wynebu costau ychwanegol o £583 y mis (Scope, 2019). Mae un o bob pump o oedolion anabl yn wynebu costau ychwanegol o dros £1000 y mis hyd yn oed ar ôl derbyn budd-daliadau sydd i fod i dalu'r costau hyn. Mae'r costau'n cynnwys nwyddau a gwasanaethau arbenigol (e.e. addasiadau i'r cartref), trafnidiaeth breifat (e.e. gorfod defnyddio tacsis yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus), costau ynni (e.e. biliau gwresogi uwch i aros yn gynnes), ac yswiriant (e.e. talu mwy am yswiriant bywyd oherwydd cyflwr penodol) (Scope, 2019). Mae'n bwysig nodi nad yw'r costau hyn yn cael eu hachosi oherwydd bod pobl yn anabl, ond oherwydd yr anghydraddoldeb systemig mewn cymdeithas.

**Darllen pellach ar safonau byw ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Food Poverty in South Wales: A Call to Action
Out on the Streets: LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales
Scope: Disability Price Tag
Trechu Tlodi Tanwydd 2021 i 2035
Yr hawl i dai digonol yng Nghymru

# 6. Iechyd

**Anghydraddoldebau canlyniadau allweddol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol - Iechyd**

- Dim cystal iechyd corfforol a disgwyliad oes is mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd;
- Mae pobl yn fwy tebygol o ddioddef o glefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd;
- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd yn fwy tebygol o fod ag iechyd meddwl gwael, wynebu mwy o risg o hunanladdiad, ac yn llai tebygol o ofyn am gymorth ar gyfer iechyd meddwl;
- Llai o fynediad at ofal iechyd digonol ar gyfer rhai cymunedau buddiant ac mewn ardaloedd gwledig;
- Mae pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o ddioddef anghydraddoldebau iechyd ac wynebu rhwystrau wrth geisio cael gofal iechyd ac ymarfer corff/chwaraeon;
- Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl;
- Mae pobl LGBTQ+ yn fwy tebygol o ddioddef o drallod seicolegol;
- Nid yw llawer o anghenion gofal iechyd pobl anabl yn cael eu diwallu.

**Cefndir**

6.1 Mae gan amddifadedd cymdeithasol ac economaidd gysylltiadau clir â chanlyniadau iechyd (Walsh et al., 2010; Foster et al., 2018). Yn ôl Adolygiad Marmot, yr adolygiad mwyaf o degwch iechyd yn Lloegr: “Health is closely linked to the conditions in which people are born, grow, live, work and age and inequities in power, money and resources [which are] the social determinants of health” (Marmot et al., 2020). Mae Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2020) yn nodi pwysigrwydd cydnabod "penderfynyddion ehangach iechyd " er mwyn annog llywodraethau i gymryd camau i fynd i'r afael â nhw, gan addo yng Nghymru yn y dyfodol na fydd man geni pobl neu lle maent yn byw yn penderfynu eu safon byw.


6.2 Mae adroddiad Tegwch Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio penderfynyddion ehangach iechyd a'r amodau hanfodol i gynnal iechyd fel: sicrwydd incwm ac amddiffyniad cymdeithasol (h.y. y gallu i fforddio'r pethau angenrheidiol i ffynnu), amodau byw boddhaol, cyfalaf cymdeithasol a dynol (e.e. deilliannau addysgol), mynediad at wasanaethau iechyd digonol, ac amodau cyflogaeth ac amodau gwaith boddhaol. Gall y penderfynyddion cymdeithasol hyn ar gyfer iechyd ddylanwadu ar ganlyniadau iechyd a dewisiadau ffordd o fyw (Sefydliad Iechyd y Byd, 2008). Hefyd, maent yn trafod pwysigrwydd amgylchedd ehangach unigolyn o safbwynt ei iechyd, gan nodi bod cymdogaethau sy'n meithrin lefelau uwch o gyfalaf cymdeithasol yn creu cyfleoedd i wella iechyd meddwl, mwy o ymddygiadau hybu iechyd, a chynyddu'r tebygolrwydd o weithgarwch corfforol (Sefydliad Iechyd y Byd, 2016). Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd meddwl am iechyd ac amddifadedd yng nghyd-destun pob maes arall o'r adroddiad hwn mewn perthynas ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Cyd-destun Cymru**

6.3 Er bod pwysigrwydd iechyd a'i gysylltiadau ag amddifadedd wedi’i gydnabod, mae Adolygiad Marmot (2020) yn nodi bod anghydraddoldebau iechyd wedi tyfu yn gyffredinol dros y degawd diwethaf, a bod annhegwch iechyd yn amlwg yng Nghymru. Mae disgwyliad oes oedolion yn is yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf (fel cymoedd y De a rhai trefi ar yr arfordir a ger y ffin yn y Gogledd) (SYG, 2021a; Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2019), ac mae canlyniadau iechyd oedolion a phlant mewn ardaloedd tlotach yn waeth na'r rhai yn yr ardaloedd â'r lefelau lleiaf o amddifadedd (EHRC, 2018). Yn wir, mae oedolion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd bron 4 gwaith yn fwy tebygol o farw o achos y gellir ei osgoi o'i gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd â'r lefelau lleiaf o amddifadedd (Llywodraeth Cymru, 2019f). Mae Ffigur 6.1 yn dangos y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd â'r lefelau uchaf neu isaf o amddifadedd yng Nghymru (lle mai 1 yw'r rhai sy'n byw yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf, a 10 yw'r rhai sy'n byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf), gyda

disgwyliad oes pobl sy'n byw yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yn is, ar sail data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, (SYG, 2021a).


**Ffigur 6.1: Disgwyliad oes dynion a menywod yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ac amddifadedd lleiaf yng Nghymru**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwlad, 2021a

6.4 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru (2020), yn 2020 nododd cyfanswm o 71 y cant o oedolion yng Nghymru fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn ar y cyfan, nododd 48 y cant fod ganddynt salwch hirdymor a nododd 35 y cant fod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer pob oedolyn (16 oed a throsodd) yng Nghymru. Wrth astudio'r ffigurau yn ôl cwintelau amddifadedd, gwelir bod llai o oedolion sy'n byw mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd yn dweud eu bod mewn iechyd da (Ffigur 6.2).

**Ffigur 6.2: Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn yn ôl cwintel amddifadedd MALIC. (2016/17 - 2019/20)**




Ffynhonnell: StatsCymru

6.5 Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod oedolion sy'n byw mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd yng Nghymru yn tueddu i fwyta llai o ffrwythau a llysiau. Hefyd, mae BMI yr unigolion hyn yn uwch, maent yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ac mae mwy ohonynt yn smygu (Llywodraeth Cymru, 2021e). Yn yr un modd, nodir bod llai o blant a phobl ifanc o ardaloedd â mwy o amddifadedd yn byw bywyd iach. Mae gwaith ymchwil diweddar yng Nghymru wedi dangos po fwyaf cefnog yw teuluoedd, mwya’n byd o ffrwythau maent yn eu bwyta, a bod un o bob deg o bobl ifanc o deuluoedd llai cefnog yn bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol dyddiol a argymhellir o'i gymharu ag un o bob pump o deuluoedd mwy cefnog (Page et al, 2021). Hefyd, mae oedolion a phlant sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, felly hefyd pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl (Chwaraeon Cymru, 2019). Mae'r ymddygiad hwn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth, gan fod ymddygiad afiach yn ffactor risg ar gyfer


clefydau anhrosglwyddadwy a chynnydd mewn afiachedd a marwolaethau (Foster et al., 2018; Stringhini et al., 2011). Fodd bynnag, mae ardaloedd o amddifadedd yn nodi lefelau is o oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau wythnosol ar gyfer alcohol o'i gymharu ag oedolion o ardaloedd â llai o amddifadedd (Llywodraeth Cymru, 2020b). Er bod disgwyliad oes a chanlyniadau iechyd yn waeth ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd, nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd bod y bwlch yn cynyddu (Llywodraeth Cymru, 2019f).

**Iechyd Meddwl**

6.6 Mae iechyd meddwl yn fater pwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gellir ei gysylltu ag anghydraddoldebau. Yn 2015, dywedodd 26.8 y cant o oedolion yng Nghymru fod ganddynt iechyd meddwl a llesiant gwael, ac mae problemau iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc ar gynnydd (EHRC, 2018). Mae iechyd meddwl yn waeth yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru o'i gymharu â'r ardaloedd o amddifadedd lleiaf (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019). Er enghraifft, mae gan gyfartaledd o 30.5 y cant o bobl yn y degradd o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru gyflwr iechyd meddwl wedi'i gofnodi gan feddyg teulu o'i gymharu â 19.3 y cant o bobl yn y degradd o amddifadedd lleiaf (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2019). Mae gwaith ymchwil yn dangos bod amddifadedd yn gysylltiedig â mwy o straen, problemau iechyd meddwl, a hunanladdiad (Samariaid, 2017; Skapinakis, 2005). Gall cyfraddau hunanladdiad fod dwy neu dair gwaith yn uwch yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf o'i gymharu â'r ardaloedd o amddifadedd lleiaf, sy'n dangos cysylltiad rhwng amddifadedd ar lefel ardal ac ymddygiad a allai arwain at hunanladdiad (Samariaid, 2017). Mae Ffigur 6.4 yn dangos llesiant meddwl ar gyfer y blynyddoedd 2016-17 a 2018-19, wedi'i fesur gan Raddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin, o'i gymharu â chwintel amddifadedd. Mae'n amlygu'r lefelau is o lesiant meddwl mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd yng Nghymru. Casglwyd y sgoriau hyn fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae sgôr uwch yn dangos llesiant meddwl uwch. Mae perthynas debyg yn bodoli ymysg pobl ifanc yng

Nghymru, gyda lefelau llesiant meddwl yn is ymysg pobl ifanc o deuluoedd llai cefnog. Hefyd, maent yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt symptomau iechyd meddwl mwy difrifol a'u bod yn teimlo'n unig (Page et al, 2021).

**Ffigur 6.3: Llesiant meddwl yn ôl cwintel amddifadedd yng Nghymru**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

6.7 Mae'r cysylltiadau hyn rhwng iechyd meddwl ac amddifadedd yn deillio o nifer o ffactorau cysylltiedig. Mae pobl nad ydynt erioed wedi gweithio neu sy'n ddi-waith hirdymor yn nodi'n amlach bod ganddynt iechyd meddwl gwael na'r rhai mewn cyflogaeth (EHRC, 2018). Mae mwy o risg o hunanladdiad yn gysylltiedig ag ansicrwydd o ran swyddi, diweithdra, a dyled, ac mae straen yn gwaethygu teimladau o hunanladdiad, sy'n golygu bod unigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu mwy o straen mewn mwy o berygl o ymddwyn mewn ffordd a allai arwain at hunanladdiad. Hefyd, maent yn llai tebygol o ofyn am gymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl (Samariaid, 2017). Gall unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, sy'n gallu deillio o anghydraddoldebau cymdeithasol neu effeithio ar y rhai mewn grwpiau penodol (e.e. pobl hŷn,

pobl LGBTQ+, unig rieni), arwain at ganlyniadau iechyd meddwl gwaeth hefyd (Owens a Sirois, 2019).

6.8 Hefyd, mae gwaith ymchwil wedi dangos y gallai pobl LGBTQ+ fod yn fwy tebygol o ddioddef cyfraddau uwch o drallod seicolegol (King et al., 2003). Yn ôl canfyddiadau astudiaeth Transgender Mental Health (McNeil et al., 2012) roedd 66 y cant o'r ymatebwyr wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, ac roedd mwy na hanner (56 y cant) wedi teimlo mor ofidus ar ryw adeg nes iddynt orfod gofyn am gymorth brys. Roedd cyfanswm o 53 y cant o'r ymatebwyr wedi hunan-niweidio ar ryw adeg. Roedd lefelau boddhad â gwasanaethau iechyd (iechyd corfforol ac iechyd meddwl) yn gymysg ac yn waeth nag yng Nghymru, ac roedd profiadau negyddol yn gyffredin, megis iaith niweidiol, defnyddio'r rhagenwau anghywir, neu anwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â phobl drawsryweddol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt hwy eu hunain addysgu gweithwyr iechyd proffesiynol.


6.9 Mae menywod yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt iechyd meddwl gwael (EHRC, 2018). Mae mwy o fenywod na dynion yn derbyn triniaeth am gyflyrau iechyd meddwl. Hwyrach mai rhan o’r rheswm am hyn yw'r ffaith eu bod yn fwy tebygol na dynion o ddatgelu bod ganddynt broblem iechyd meddwl.

**Croestoriadedd**

6.10 Ceir llawer o enghreifftiau eraill o groestoriadedd rhwng iechyd a ffactorau fel hil, statws economaidd-gymdeithasol, rhywedd ac oedran. Mae annhegwch iechyd oherwydd statws economaidd-gymdeithasol yn dechrau o oedran ifanc, ac felly mae plant mewn cymunedau difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef afiechyd sy'n effeithio ar eu datblygiad yn ystod plentyndod a'u deilliannau addysgol (Hirsch, 2007). Mae byw ar aelwyd gyda pherson anabl yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol, ac mae amddifadedd materol ddwywaith yn fwy tebygol ar gyfer pobl anabl neu'r rhai sydd â salwch cyfyngus hirdymor, o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn anabl (Llywodraeth Cymru, 2019f). Mae pobl anabl ledled y DU hefyd yn fwy

tebygol o gael trafferth cyrchu gofal iechyd, ac mae ganddynt fwy o anghenion gofal iechyd heb eu diwallu oherwydd rhestrau aros neu gostau (Sakellariou a Rotarou, 2017). Mae Ffigur 6.4 yn dangos bod mwy o bobl mewn ardaloedd o fwy o amddifadedd yn dweud bod ganddynt nam.

**Ffigur 6.4: Statws anabledd yn ôl amddifadedd ardal**




Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

6.11 Mae tai neu gyflogaeth yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gan fod problemau yn y meysydd hyn yn gallu cynyddu straen, ac mae swyddi incwm is yn fwy tebygol o fod yn beryglus (EHRC, 2018). Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng tai ac amodau byw a mwy o berygl o ddamweiniau, lledaeniad clefydau ac effeithiau corfforol gorlenwi, yn ogystal â chysylltiad anuniongyrchol trwy effeithiau ar berthynas pobl â'i gilydd, teimladau o ddiogelwch, sefyllfaoedd cymdeithasol ac ymdeimlad o gynhwysiant (Hagell et al, 2018). Mae deiliadaeth tai yn bwysig hefyd, ac mae ansicrwydd o ran tai a digartrefedd yn cael effaith andwyol ar ddeilliannau addysgol a chanlyniadau cyflogaeth, lefelau uwch o gamddefnyddio sylweddau a mwy o debygolrwydd o glefydau maeth a heintus (ibid). Gall mynediad i fannau gwyrdd wella llesiant ac iechyd, ond gall natur wledig ardal arwain at ganlyniadau gwaeth os nad oes gwasanaethau gofal iechyd ar gael yn hwylus i bobl. Gall cymunedau mwy cydlynus leihau ynysigrwydd

cymdeithasol ac unigrwydd, gan wella iechyd wrth i bobl feithrin perthynas gryfach ag eraill, a chreu mwy o 'gyfalaf cymdeithasol' (Healthy People, 2020). Mae ardaloedd o amddifadedd yn fwy tebygol o fod yn 'anialwch bwyd', gyda llai o archfarchnadoedd a llai o fynediad at fwydydd iach, gan arwain at fwy o dlodi bwyd a dibyniaeth ar fanciau bwyd neu fwydydd afiach, gan gynyddu cyfraddau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet[15] (The Social Market Foundation, 2018).

6.12 Mae'r pandemig COVID-19 wedi amlygu anghydraddoldebau sylfaenol o ran canlyniadau ym maes gofal iechyd, ac mae wedi amlygu gwendidau yn y system gofal iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021). Mae COVID wedi cael effaith anghymesur yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar boblogaethau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Razai et al., 2021). Mae'r anghydraddoldebau hyn wedi bodoli mewn systemau gofal iechyd yn y DU erioed (Byrne et al., 2020), ond mae pandemig y coronafeirws yn benodol wedi amlygu'r anghydraddoldebau strwythurol hyn, gan arwain at sefydlu'r Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig COVID-19, a luniodd adroddiad llawn ar y sefyllfa yng Nghymru yn 2020. Nododd y grŵp fod COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar y boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru trwy ganlyniadau iechyd anghyfartal ac anghydraddoldebau strwythurol, hyd yn oed ar ôl addasu'r ffigurau ar sail rhanbarth, dwysedd poblogaeth, a nodweddion demograffig-gymdeithasol ac aelwydydd (Clifford, 2020).

6.13 Yn ogystal, dangosodd data ar gyfer Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021b) fod 59.5 y cant o bobl a fu farw o ganlyniad i'r coronafeirws yn Lloegr yn bobl anabl (a ddiffinnir fel anabledd hunangofnodedig trwy Gyfrifiad 2011). Roedd y gwahaniaeth hwn yn amlwg o hyd wrth edrych ar ddata wedi'u safoni yn ôl oedran. Nodir nad oes unrhyw ffactor unigol sy'n esbonio'r perygl sylweddol uwch o farw o'r coronafeirws ymysg pobl anabl, a bod y ffactorau'n cynnwys amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a daearyddol yn ogystal â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes. Mae

[15] Gweler *Safonau Byw* i gael mwy o wybodaeth am anialwch bwyd a banciau bwyd.

anghydraddoldebau strwythurol wedi effeithio ar bobl anabl yng Nghymru hefyd. Mae cyfran anghymesur ohonynt wedi'i chael hi'n anodd talu biliau'r cartref yn ystod y pandemig, gyda bod o dan anfantais yn y farchnad lafur, tai o ansawdd gwaeth a chostau uwch sy'n gysylltiedig â bod yn anabl wedi cyfrannu at ganlyniadau anghyfartal (Llywodraeth Cymru, 2021i).

6.14 Mae Covid-19 wedi amlygu anghydraddoldebau iechyd strwythurol ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru hefyd. Gall plant ar aelwydydd heb fynediad i fannau awyr agored neu dan do i wneud ymarfer corff fod yn agored yn y tymor byr i iechyd meddwl gwael, a magu arferion ymarfer corff gwael o bosibl. Roedd gostyngiadau mewn gweithgarwch corfforol yn fwyaf amlwg ymysg plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach (Chwaraeon Cymru, 2020). Roedd cau ysgolion a gostyngiadau mewn incwm wedi cynyddu ansicrwydd bwyd hefyd, gan arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau banciau bwyd (Ymddiriedolaeth Trussel, 2020)

6.15 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod angen gwneud mwy o waith ymchwil i ganfod y rhesymau llawn am y gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd ar gyfer grwpiau gwahanol, gan ei bod yn debygol bod y gwahaniaethau hyn yn deillio o gyfuniad cymhleth o achosion genetig, biolegol a chymdeithasol. Mae menter gyntaf Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru yn canolbwyntio ar ymateb cynaliadwy i COVID-19 yng Nghymru, ac mae'n darparu rhagor o wybodaeth am y grwpiau poblogaeth allweddol y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn fwy na neb. Mae'n nodi bod y pandemig yn darparu cyfle ar gyfer adferiad trawsnewidiol er mwyn sicrhau llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021).

**Mynediad at gyfleusterau gofal iechyd a llesiant**

6.16 Mae mynediad at gyfleusterau priodol sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles (fel meddygfeydd, campfeydd neu ganolfannau hamdden) yn fater allweddol wrth ystyried anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae grwpiau penodol yn ei chael hi'n anodd cyrchu gofal iechyd o'r un cysondeb ac ansawdd â'r rhai sy'n wynebu llai o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl ddigartref, pobl ag

anawsterau dysgu, mudwyr/ffoaduriaid, carcharorion, Poblogaethau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl drawsryweddol, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (EHRC, 2018).

6.17 Mae gwaith ymchwil yn dangos bod lefelau gweithgarwch corfforol yn is ymysg trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020c). Gallai hyn ddeillio'n rhannol o hygyrchedd cyfleusterau chwaraeon (er nad yw cost campfeydd yn uwch o reidrwydd) (Evans et al., 2013), gan fod ardaloedd tlotach yn llai tebygol o fod â chyfleusterau hamdden, campfa neu chwaraeon digonol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig (Higgs et al., 2015).

6.18 Rhwystr arall i gael mynediad at gyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd yw hiliaeth. Nododd Chwaraeon Cymru (2019) fod hiliaeth yn ffactor sy'n gwneud pobl yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon, ynghyd â diffyg cyfleusterau, ynysigrwydd cymdeithasol a disgwyliadau diwylliannol. Mae'r rhyngweithio rhwng chwaraeon a hil, cyfiawnder cymdeithasol, dosbarth cymdeithasol a rhywedd yn gymhleth, ac mae gwaith ymchwil wedi amlygu'r angen i gydnabod croestoriadedd yn y maes hwn wrth roi polisïau ar waith (Dagkas, 2019). Mae hyn yn adlewyrchu'r angen ehangach i ystyried iechyd a'r rhyngweithio rhwng iechyd a'r holl nodweddion gwarchodedig ac agweddau ar anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol wrth ystyried iechyd a chanlyniadau iechyd.

**Gofalu di-dâl**

6.19 Mae cyfrifoldebau gofalu di-dâl yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal. Mae sawl ffactor yn gysylltiedig â gofalu am rywun am fwy na 5 awr yr wythnos, gan gynnwys: bod yn fenyw, bod yn 45 oed a throsodd, byw mewn tŷ cymdeithasol, byw yn un o'r 20 y cant o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru, lefelau isel o foddhad mewn bywyd, bod â salwch cyfyngus hirdymor, a bod yn ddi-waith (Llywodraeth Cymru, 2021b). Menywod sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu anffurfiol yn bennaf tan yn hwyr mewn bywyd pan fydd cyfran fwy o ofalwyr anffurfiol yn ddynion (Dahlberg et al., 2007).

6.20 Mae bod yn ofalwr anffurfiol, di-dâl yn arwain at anghydraddoldebau canlyniadau, gan na all gofalwyr neilltuo cymaint o amser i'w llesiant neu eu datblygiad eu hunain. Hefyd, mae'n bosibl y byddant yn dioddef o broblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl eu hunain, a gall eu dyletswyddau gofal leihau eu henillion neu effeithio ar eu gwaith (Carers UK, 2019; Llywodraeth Cymru, 2021b, 2021h). Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau hyn yn syml bob amser, ac mae rhywfaint o waith ymchwil yn awgrymu y gallai llesiant corfforol neu feddyliol gofalwyr anffurfiol gynyddu (Brown a Brown, 2014). Gellir ystyried gofalwyr yn 'gleifion cudd' oherwydd er y gallai bywyd fod yn anodd iddynt, nid ydynt yn cael cynnig cymorth priodol. Gall hyn gael effaith benodol ar Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n gallu wynebu annhegwch wrth gyrchu gwasanaethau a rhwystrau fel iaith neu ddiffyg dealltwriaeth ddiwylliannol gan ddarparwyr gwasanaethau (Merrell et al., 2006).

**Darllen pellach ar iechyd ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020

Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020

Dying from Inequality: Socio-economic disadvantage and suicidal behaviour

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020:Cymru sy'n Iachach

Trans Mental Health Study 2012

Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi): Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19: Adeiladu bywydau llewyrchus i bawb yng Nghymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019: Adroddiad canlyniadau

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018: Iechyd a'i phenderfynyddion yng Nghymru

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Adroddiad Cenedlaethol, 2019/20

## 7. Cyfiawnder

### Cefndir

7.1 Mae'r hawl i deimlo'n ddiogel a theimlo bod y gyfraith yn ein gwarchod yn hollbwysig ym mhob cymdeithas ddemocrataidd fodern. Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel yn eu cymuned, ac mae gan bobl sy'n rhyngweithio â'r system gyfiawnder yr hawl i gael eu trin yn deg. Fodd bynnag, mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â mwy o siawns o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder, dioddef trosedd, neu beidio â theimlo'n ddiogel mewn cymuned.

7.2 Yng Nghymru, nid yw llawer o feysydd sy'n ymwneud â throseddu wedi'u datganoli, megis plismona, cyfiawnder troseddol, a rheoleiddio'r cyfryngau a'r rhyngrwyd. Felly, gan fod cyfiawnder yn cael ei reoli gan Lywodraeth y DU, nid oes unrhyw ddull integredig o ymdrin â'r system gyfiawnder ac mae'r toriadau yn y gyllideb wedi cael " effaith sylweddol ar Gymru" (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019:8). Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyfrannu at ddiogelwch a chydlyniant ei chymunedau, ac mae wedi ceisio pontio'r bylchau hyn mewn rhai meysydd trwy sawl polisi allweddol (e.e. ceisio lleihau troseddau ieuenctid trwy ganolbwyntio ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod[16]).

**Anghydraddoldebau canlyniadau allweddol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol - Cyfiawnder**

- Mae pobl mewn ardaloedd o amddifadedd yn fwy tebygol o ddioddef trosedd ac yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn eu cymuned;
- Mae pobl anabl, poblogaethau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl LGBTQ+ yn fwy tebygol o ddioddef troseddau casineb;
- Mae mwy o bobl o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder fel troseddwyr, ac nid oes digon ohonynt yn gweithio i'r heddlu ac fel staff cyfiawnder;
- Rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a chreu Cymru wrth-hiliol (gweler y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol).

[16] Adolygiad Polisi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Llywodraeth Cymru

**System gyfiawnder Cymru**

7.3 Daeth adolygiad o'r system gyfiawnder yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2019 i'r casgliad “nad yw'r system bresennol yn diwallu anghenion pobl Cymru”, gan amlygu nifer o faterion allweddol megis toriadau i gymorth cyfreithiol, y gwahaniaeth rhwng penderfyniadau Llywodraeth y DU ac anghenion gwirioneddol pobl Cymru, diffyg cysondeb rhwng polisi a gwariant, a materion cymhleth mewn carchardai, llysoedd a'r maes rheoli troseddwyr (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). Mae hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ond dim ond 53 y cant sy'n teimlo bod y system cyfiawnder troseddol yn effeithiol, ac mae 68 y cant yn hyderus ei bod yn deg (EHRC, 2018).

7.4 Mae diwygiadau i gymorth cyfreithiol a gyflwynwyd yn 2012 a gostyngiadau yng nghyllideb Llywodraeth y DU wedi cael effaith negyddol ar ddarparu cymorth cyfreithiol yng Nghymru, gan arwain at fwy o bobl yn cynrychioli eu hunain yn y llysoedd a thribiwnlysoedd (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). Mae diffyg cymorth cyfreithiol yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019).

7.5 Mae mwy o bobl yn y carchar yng Nghymru, fesul pen o'r boblogaeth, nag unman arall yng Ngorllewin Ewrop, ond yn hanesyddol, mae data 'Cymru yn unig' ar garchardai a charcharorion wedi bod yn anodd eu canfod gan eu bod yn tueddu i gael eu cyfuno gyda data ar garchardai yn Lloegr. Mae amodau carchardai yng Nghymru wedi bod yn destun craffu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod carchardai yng Nghymru wedi perfformio'n waeth na charchardai yn Lloegr mewn ystod o fesurau diogelwch, megis digwyddiadau hunan-niweidio, aflonyddwch, gorlenwi, ac ymosodiadau yn y carchar (Jones, 2018). Mae llawer o garcharorion o Gymru yn cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr, gan gynnwys cyfran fawr o blant, sy'n lleihau cymorth teuluol a chymorth arall ar gyfer y carcharorion hyn sy'n cael eu cadw ymhell o'u cartrefi, ac mae diffyg cyfleusterau i fenywod yng Nghymru

hefyd (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019; Jones, 2018). Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn, gan roi mwy o bwyslais ar gasglu a dadansoddi data sy'n berthnasol i Gymru yn unig.

**Croestoriadedd**

7.6 Mae rhai cymunedau yn fwy tebygol o ddioddef troseddau, aflonyddu a gwahaniaethu, megis pobl LGBTQ+, pobl anabl, neu bobl â chyflyrau iechyd meddwl (Clement et al., 2011). Ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, bu cynnydd yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf (EHRC, 2018). Cafwyd cynnydd o 10 y cant yn nifer y troseddau casineb hiliol a gofnodwyd rhwng 2016-17 a 2017-18 yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019f), ac roedd hil yn ffactor ysgogol mewn 7 o bob 10 trosedd casineb. Roedd cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor mewn 670 o droseddau casineb a gofnodwyd yn 2017-18, ar gyfer cyfanswm o un o bob pump o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd (Llywodraeth Cymru, 2019f). Mae statws economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar droseddau casineb hefyd: mewn un astudiaeth, nodwyd bod pobl groenliw, LGBTQ+ incwm isel yn dioddef mwy o drais corfforol nag ymatebwyr Gwyn dosbarth canol (Meyer, 2010). Er bod mwy o bobl yn rhoi gwybod am droseddau casineb, mae llawer yn dewis peidio o hyd (Stonewall Cymru, 2017). Mae'r rhesymau dros beidio â rhoi gwybod am droseddau casineb yn amrywio, gan gynnwys poeni am ragor o erledigaeth, a phobl yn normaleiddio camdriniaeth fel rhywbeth mae'n rhaid dygymod ag ef (Stonewall Cymru, 2017; Browne e tal., 2011). Hefyd, mae'n bosibl na fydd yr heddlu'n gwybod sut i ddosbarthu troseddau casineb sy'n seiliedig ar rywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Yn wir, mae gwaith ymchwil wedi dangos bod yr heddlu'n methu'n gyson â chofnodi data ar ddioddefwyr neu gyflawnwyr, gan gynnwys ethnigrwydd, anabledd, a chyfeiriadedd rhywiol (Arolygiaethau Cyfiawnder, 2018). O ganlyniad, mae hyfforddi heddluoedd i gasglu digon o ddata wedi'u dadgyfuno ar droseddau yn allweddol i'r broses o wella ystadegau ac felly ein dealltwriaeth o droseddau casineb yng Nghymru. Hefyd, mae'n bwysig nodi'r newidiadau mewn safonau adrodd a gallai'r gwelliannau mewn cofnodi troseddau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfrif

fel trosedd gasineb fod yn gyfrifol am y cynnydd yn y niferoedd (Y Swyddfa Gartref, 2020). Mae rhai ystadegau yn dangos gostyngiad yn nifer y troseddau casineb, megis Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, ond mae'n bosibl bod gwahaniaethau'n deillio o'r dulliau casglu data gwahanol, gan nad ydynt yn seiliedig ar gofnodion yr heddlu (Y Swyddfa Gartref, 2020).

7.7 Mae'n rhaid i ni ystyried ffactorau eraill yn ogystal â throseddau casineb sydd wedi'u cofnodi wrth feddwl am y croestoriadedd rhwng diogelwch personol a nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, yn amlach mae pobl LGBTQ+ yn dioddef mathau o aflonyddu mwy llechwraidd, megis aflonyddu ar lafar. Mae rhai pobl yn dadlau o blaid cymorth ehangach a mwy priodol (fel mannau diogel anffurfiol a ffurfiol i rannu a derbyn cymorth) i fynd i'r afael â phob math o gamdriniaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar droseddau casineb yn unig, gan awgrymu bod diogelwch LGBTQ+ yn broblem i gymdeithas gyfan, nid dim ond i'r heddlu neu bobl LGBTQ+ eu hunain (Browne et al., 2011). Bu cynnydd hefyd yn nifer y troseddau casineb sy'n gysylltiedig ag anabledd (EHRC, 2018), ond, unwaith eto, ni allwn ystyried y digwyddiadau hyn fel rhai ynysig na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar achosion eithafol o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, sy'n brin o'i gymharu ag aflonyddu lefel isel, ofn ac allgau cymdeithasol y gall pobl anabl eu dioddef yn amlach (Hall, 2019). Yn ogystal, menywod sy'n dioddef cam-drin domestig fwyaf, ac mae pobl mewn perthynas LGBTQ+ a phobl anabl yn fwy tebygol o ddioddef trais a cham-drin domestig (EHRC, 2018). Er bod nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cofnodi wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o bobl yn parhau i fod yn anfodlon rhoi gwybod am drais domestig, fel yn achos troseddau casineb ac aflonyddu.

7.8 Mae teimladau o ddiogelwch personol yn bwysig i gynnal cymunedau diogel a chydlynus, ac maent yn cael eu monitro'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn edrych ar faint o bobl sy'n teimlo'n ddiogel a'r ffactorau sy'n effeithio ar a yw pobl yn teimlo'n ddiogel (Llywodraeth Cymru, 2021e). Dangosodd canlyniadau Arolwg 2018-19 fod 71 y cant o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, ond bod pobl yn teimlo'n llai diogel mewn ardaloedd o amddifadedd. Roedd menywod, pobl

hŷn sy'n wynebu amddifadedd materol, a phobl nad oeddent yn teimlo ymdeimlad o gydlyniant yn eu cymuned i gyd yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn eu hardal leol. Roedd menywod yn llawer llai tebygol o deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu (58 y cant o'i gymharu â 83 y cant o ddynion yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu). Mae pobl nad ydynt yn nodi eu bod yn heterorywiol yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu cymuned hefyd.

7.9 Mae'r system gyfiawnder hefyd yn creu anghydraddoldebau i rai grwpiau. Er enghraifft, roedd 27 y cant o bobl mewn carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi nodi eu bod yn perthyn i Leiafrif Ethnig o'i gymharu â 13 y cant yn y boblogaeth gyffredinol (Sturge, 2020). Yng Nghymru yn benodol, nododd 9 y cant o bobl mewn carchardai eu bod yn perthyn i grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn 2018 o'i gymharu â 5 y cant o'r boblogaeth gyffredinol (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynrychiolaeth ormodol o unigolion o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y carchar. Dangosodd adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr fod nifer uchel o fechgyn dosbarth gweithiol Du, Mwslimaidd a Gwyn yn y system gyfiawnder, a bod llawer yn dioddef o broblemau iechyd meddwl neu broblemau iechyd eraill, yn ogystal ag anawsterau dysgu (Taylor, 2016). Mae canran y swyddogion heddlu Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn isel (1.9 y cant yn unig), o'i gymharu â 5 y cant o'r boblogaeth (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). Mae achosion yr anghysondebau hyn yn gymhleth ac mae eu gwreiddiau y tu allan i'r system gyfiawnder ei hun, ond mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol â materion systemig ehangach fel amddifadedd economaidd-gymdeithasol, addysg a chyflogaeth, ac maent yn cynrychioli anghydraddoldebau canlyniadau i rai cymunedau mewn perthynas â'r system gyfiawnder.

**Darllen pellach ar gyfiawnder ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol

Stonewall Cymru: LHDT yng Nghymru – Troseddau Casineb a Gwahaniaethu

Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, Hydref 2019

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol?

# 8. Cyfranogiad

## Cefndir

8.1 Yn gyffredinol, gellir diffinio cyfranogiad fel proses lle mae pobl yn helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn cael dewisiadau a llais mewn bywyd cyhoeddus. Hefyd, mae cyfranogiad yn cynnwys cymryd rhan mewn cymunedau a chael y rhyddid i ddefnyddio gwasanaethau a rhyngweithio â phobl yn annibynnol. Dylai pawb gael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn eu cymuned a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae gan gyfranogiad gysylltiadau â meysydd eraill, megis diogelwch personol, pleidleisio, preifatrwydd, hygyrchedd a chydlyniant cymunedol, sydd i gyd yn feysydd allweddol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus (EHRC, 2018).

**Anghydraddoldebau canlyniadau allweddol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol - Cyfranogiad**

- Lefelau is o gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol;
- Llai o fenywod, pobl anabl a'r rhai o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli mewn rolau uwch yn y Senedd neu etholiadau lleol;
- Mae seilwaith digidol yn wannach mewn ardaloedd gwledig ac nid oes gan 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru unrhyw sgiliau digidol sylfaenol;
- Problemau o ran hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus i bobl hŷn ac anabl;
- Gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol o safbwynt mynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau, gyda'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o gymryd rhan.

## Cyd-destun Cymru

8.2 Yn gyffredinol, mae boddhad ag ardal leol pobl yn uchel yng Nghymru, gydag 85 y cant o bobl yn teimlo'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw. Hefyd, roedd 81 y cant o bobl yn fodlon y gallent gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt (Llywodraeth Cymru, 2021e). Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod sawl maes y gellid mynd i'r afael â nhw er

mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i ymgorffori gwerthoedd gwlad agored a theg lle mae pawb yn gallu cymryd rhan mewn agweddau ar fywyd cymunedol yn unol â'u dymuniad (FGC, 2020). Mae'r meysydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg, cynnwys mwy o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd cyhoeddus, sicrhau cydlyniant cymunedau, a lleihau diffyg hygyrchedd ym meysydd fel sgiliau digidol a thrafnidiaeth gyhoeddus (FGC, 2020).

8.3 Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn un o gonglfeini polisïau Llywodraeth Cymru gan ei bod yn ceisio sicrhau dyfodol sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gan Lywodraeth Cymru nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn 2020, nododd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod 29.1 y cant o bobl yng Nghymru sy'n dair oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg.

8.4 Mae'r dirwedd wleidyddol yng Nghymru yn deg ar y cyfan yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ond mae'n trafod rhai meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r Comisiwn yn nodi bod pleidleisio yng Nghymru yn gymharol hygyrch, a bod nifer y bobl sy'n pleidleisio wedi bod yn cynyddu yn ystod yr etholiadau diwethaf, gyda nifer cynyddol o fenywod yn pleidleisio hefyd (EHRC, 2018). Dechreuodd y broses o ddiwygio'r system bleidleisio yng Nghymru yn 2021, ac am y tro cyntaf erioed roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiad y Senedd yn 2021. O safbwynt penodiadau cyhoeddus, nid yw menywod yn cael eu cynrychioli’n ddigonol mewn swyddi uwch mewn rhai meysydd o hyd (e.e. penodiadau cadeiryddion cyhoeddus, swyddi barnwriaeth), felly hefyd pobl anabl a'r rhai o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (EHRC, 2018). Er enghraifft, nid oes gan boblogaethau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gynrychiolaeth ddigonol mewn llywodraeth leol yng Nghymru, er bod Llywodraeth Cymru wedi penodi mwy o bobl o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i swyddi cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2019f). Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn etholiadau lleol (EHRC, 2018). Yn dilyn etholiad diweddaraf y Senedd yn

2021, roedd 43% o'r holl aelodau yn fenywod, ac mae'r fenyw groenliw gyntaf wedi'i hethol i'r Senedd (Ymchwil y Senedd, 2021).

8.5 Mae ystadegau diweddaraf yr Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr Blynyddol 2020 yn dangos bod 59 y cant weithwyr y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yn fenywod a 41 y cant yn ddynion. Mae cyfran fwy o benaethiaid y GIG a phenaethiaid ysgolion yn fenywod hefyd (Llywodraeth Cymru, 2020c).

8.6 Yn ôl Adroddiad Llesiant Cymru 2018-19, o safbwynt darparu gwasanaethau, mae pobl yng Nghymru yn lleiaf bodlon â chael gafael ar wasanaethau fel canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, a chlybiau ieuenctid neu chwaraeon (Llywodraeth Cymru, 2019f). Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer y mannau cyhoeddus sy'n dod â chymunedau at ei gilydd, gyda llawer o'r mannau cyhoeddus a sefydliadau a arferai ddod â chymunedau at ei gilydd, fel llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a hamdden, a pharciau cyhoeddus wedi cael eu datgymalu neu eu tanseilio'n raddol (Alston, 2018, t.23) er bod y gwasanaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant a chydlyniant cymunedol (Alston, 2018).

**Croestoriadedd**

8.7 Mae nodweddion croestoriadedd yn effeithio ar gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus a'r gallu i gael mynediad at wasanaethau penodol. Gall llawer o ffactorau gyfyngu ar fynediad at wasanaethau, o'r ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau i anhawster cymryd rhan lawn mewn bywyd diwylliannol oherwydd gwahaniaethu. Mae cyfranogiad llawn mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru yn gysylltiedig â hil, hunaniaeth rhywedd, ac anabledd. Er enghraifft, mae pobl drawsryweddol yn fwy tebygol o osgoi sefyllfaoedd cymdeithasol oherwydd eu bod yn poeni am ddioddef aflonyddu (McNeil et al., 2012). Yn ôl adroddiad diweddaraf Cydraddoldeb Hiliol a Hiliaeth yng Nghymru gan Race Council Cymru, roedd 90 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod hiliaeth yn dal i fodoli yng Nghymru, ac roedd 75 y cant o'r rhai a oedd yn perthyn i grŵp Lleiafrifoedd Ethnig wedi dioddef hiliaeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yng Nghymru (Offord, 2016).

8.8 Mae mynediad at wasanaethau i bobl anabl ac i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn broblem, ac mae un ymchwiliad wedi nodi bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o deimlo unigrwydd a theimlo'n ynysig (Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 2017). Gall fod yn anodd i bobl ifanc ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig trenau a gorsafoedd trên, yn ogystal â thacsis (Y Pwyllgor Deisebau, 2017). Yn wir, nododd adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) fod pobl hŷn a phobl anabl yn teimlo bod y system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn anhygyrch i raddau helaeth. Mae'r diffyg hygyrchedd hwn yn cael effaith ddifrifol ar lesiant pobl, gan ei fod yn cyfyngu ar fynediad at wasanaethau, cymdeithasu, gwaith neu weithgareddau hamdden.

**Y rhyngrwyd, y celfyddydau a diwylliant**

8.9 Roedd gan gyfanswm o 88 y cant o aelwydydd yng Nghymru fynediad at y rhyngrwyd yn 2019/20 (Llywodraeth Cymru, 2019). Er bod aelwydydd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod heb fynediad at y rhyngrwyd o'i gymharu ag aelwydydd yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf, mae mynediad at y rhyngrwyd i'r ddau grŵp wedi cynyddu ers 2012 (Llywodraeth Cymru, 2019e). Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, pobl anabl, pobl economaidd anweithgar a phoblogaethau hŷn yn wynebu rhwystrau o ran mynediad at y rhyngrwyd oherwydd diffyg mynediad at wasanaethau digidol neu ddiffyg dealltwriaeth ohonynt (EHRC, 2018; Sanders, 2020). Yn wir, er bod mynediad yn uchel, nid oes gan un o bob pump o bobl yng Nghymru unrhyw sgiliau digidol sylfaenol (SYG, 2019).

8.10 Mae'r allgau digidol hwn yn anghydraddoldeb canlyniad sy'n gallu gadael pobl yn teimlo'n ynysig os na allant gael mynediad at wasanaethau sy'n 'ddigidol yn unig' o bosibl. Term arall a ddefnyddir i ddisgrifio'r anghydraddoldebau yn y maes digidol yw 'tlodi digidol', sy'n gysylltiedig ag adnoddau cyfyngedig (costau ariannol neu ddiffyg cysylltedd) sydd eu hangen i gael mynediad at wasanaethau ar-lein (Llywodraeth Cymru, 2020g). Mae'r anghydraddoldebau hyn wedi gwaethygu oherwydd y pandemig COVID-19 wrth i lawer o wasanaethau symud ar-lein. Nodwyd

bod y rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y pandemig a'r rhai sy'n wynebu effeithiau allgau digidol yn gorgyffwrdd (Sounderajah et al., 2021).

8.11 Mae mynychu digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol yn gysylltiedig â lefelau uwch o lesiant. Yn 2019, roedd cyfanswm o 86.8 y cant o oedolion yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019). Ar gyfer oedolion a phlant, mae yna wahaniaethau economaidd-gymdeithasol o safbwynt mynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau, ac mae'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o gymryd rhan (Llywodraeth Cymru, 2019f).

**Darllen pellach ar gyfranogiad ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Cyngor Celfyddydau Cymru: Mynychu a Chymryd Rhan - Oedolion
Cyngor Celfyddydau Cymru: Mynychiadau a Chyfranogiad Cyffredinol Plant
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg
Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Cymunedau Cydlynol
Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Diwylliant
Swyddfa Ystadegau Gwladol: Exploring the UK’s Digital Divide
Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

## 9. Casgliadau

9.1 Mae'r adroddiad hwn wedi crynhoi anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru mewn chwe maes allweddol. Mae wedi canolbwyntio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a chymunedau buddiant a lle penodol. Mae'r ddogfen hon yn darparu adolygiad o'r dystiolaeth a'r llenyddiaeth sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau allweddol y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu yng Nghymru, gan ddefnyddio ffynonellau'r llywodraeth ac academaidd. Bydd yn ddefnyddiol i lunwyr polisïau a chyrff cyhoeddus wrth iddynt ystyried y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ym mholisïau a phenderfyniadau strategol y dyfodol.

9.2 Mae cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn golygu y dylai'r materion hyn gael mwy o sylw yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu'r anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwaeth ym meysydd addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a chyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus. Mae pob un o'r meysydd hyn yn effeithio ar ei gilydd, ac mae problemau mewn un maes yn arwain at effaith ar feysydd eraill.

9.3 Mae deilliannau addysgol plant sy'n byw mewn tlodi yn waeth, ac mae'n bosibl y byddant yn dioddef iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwaeth. Os nad yw rhieni'n gallu ennill digon o arian i fforddio hanfodion sylfaenol yn gyfforddus, mae llesiant plant yn cael ei effeithio gan ansicrwydd bwyd neu amodau byw o safon isel. Mae'r ffactorau hyn yn llesteirio datblygiad plant, gan effeithio ar eu rhagolygon gwaith yn y dyfodol ac yn parhau â chylch o dlodi. Yn ogystal, mae cyfraddau uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg y rhai sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth yn y dyfodol, megis troseddu neu hunanladdiad. Gall oedolion sy'n gweithio mewn swyddi sy'n talu cyflog isel ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth oherwydd straen neu amgylcheddau sy'n beryglus neu'n anodd yn gorfforol, ac mae'n bosibl na fydd ganddynt ddigon o arian nac amser i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol

sy'n gwella llesiant. Gall byw mewn ardal o amddifadedd, gyda llai o fannau gwyrdd, effeithio ar iechyd a meysydd llesiant eraill hefyd:

> “People I spoke with told me they have to choose between eating and heating their homes, or eating and feeding their children. One person said, “I would rather feed my kids than pay my rent, but that could get us all kicked out.” Children are showing up at school with empty stomachs, and schools are collecting food on an ad hoc basis and sending it home because teachers know that their students will otherwise go hungry. Many families are living pay check to pay check. And 2.5 million people in the UK survive with incomes no more than 10 per cent above the poverty line. They are thus just one crisis away from of falling into poverty through no fault of their own.” – Alston, 2018

9.4 Mae’r adroddiad hwn wedi dangos hefyd dod amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn hynod groestoriadol. Mae amddifadedd yn rhyngweithio â nodweddion gwarchodedig, a gall rhai cymunedau buddiant a chymunedau lle wynebu canlyniadau gwaeth mewn sawl maes. Gellir ystyried y croestoriadedd hwn rhwng amddifadedd a nodweddion eraill fel gwe, lle mae meysydd gwahanol yn cysylltu, gan ddwysáu a gwaethygu ei gilydd. Nid yw'n syndod, felly, bod tlodi yn gallu troi'n gylch yn gyflym, neu'n gallu cael ei ystyried yn fagl y mae'n anodd dianc ohoni. Yn anffodus, mae datgysylltu'r we hon yn fater cymhleth ac amlweddog sy'n gofyn am waith gan ystod eang o randdeiliaid.

9.5 Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar bob agwedd ar fywyd ledled y DU. Yn anffodus, ymddengys bod tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod yr argyfwng wedi gwaethygu'r sefyllfa i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn barod, gan amlygu anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli ond sydd wedi gwaethygu oherwydd effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig. Mae gwaith i goladu a chyflwyno'r dystiolaeth hon yn parhau, ond mae rhywfaint o waith cyhoeddedig yn cynnwys Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19 (Llywodraeth Cymru, 2020)[17]. Bydd monitro

[17] Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19 (2020)

effeithiau a chanlyniadau'r pandemig yn allweddol yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf yn y gobaith o liniaru effeithiau negyddol i ryw raddau.

9.6 Yn olaf, er bod yr adroddiad hwn yn cyflwyno trosolwg o'r llenyddiaeth yn ymwneud ag anfantais ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a'u heffeithiau ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu gymunedau eraill, mae'n bwysig nodi nad yw’n disodli, ac na ddylai ddisodli, ymgynghori â'r rhai sydd â phrofiadau byw. Wrth gyflwyno unrhyw bolisi sy'n effeithio ar rai grwpiau, mae'n hollbwysig siarad â nhw, gan mai nhw yw'r gwir arbenigwyr a byddant yn gallu darparu gwybodaeth fanylach nag ystadegau pur.

## Cyfeiriadau


Adams, L., Winterbotham, M., Oldfield, K., McLeish, J., Large, A., Stuart, A., Murphy, L., Rossiter, H. a Selner, S. (2016), ‘Pregnancy and maternity-related discrimination and disadvantage: experiences of mothers’. Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Alston, P., 2018. Statement on Visit to the United Kingdom, gan yr Athro Philip Alston, Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar dlodi eithafol a hawliau dynol.

Asbury, K., Fox, L., Deniz, E., Code, A. a Toseeb, U., 2020. How is COVID-19 affecting the mental health of children with special educational needs and disabilities and their families?. *Journal of Autism and Developmental Disorders*, tt.1-9.

Ayyar, S., Bolt, U., French, E., MacCuish, J.H., ac O’Dea, C., 2021. Why rich parents have rich children.

Bellis, M.A., Lowey, H., Leckenby, N., Hughes, K. a Harrison, D., 2014. Adverse childhood experiences: retrospective study to determine their impact on adult health behaviours and health outcomes in a UK population. *Journal of public health*, *36*(1), tt.81-91.

Boeckmann, I., Misra, J. a Budig, M.J., 2015. Cultural and institutional factors shaping mothers' employment and working hours in postindustrial countries. *Social Forces*, *93*(4), tt.1301-1333.

Boyd, F., White, M.P., Bell, S.L. a Burt, J., 2018. Who doesn’t visit natural environments for recreation and why: A population representative analysis of spatial, individual and temporal factors among adults in England. *Landscape and Urban Planning*, *175*, tt.102-Brown, R.M. a Brown, S.L., 2014. Informal caregiving: A reappraisal of effects on caregivers. *Social Issues and Policy Review*, *8*(1), tt.74-102.

Browne, K., Bakshi, L. a Lim, J., 2011. It’s something you just have to ignore’: Understanding and addressing contemporary lesbian, gay, bisexual and trans safety beyond hate crime paradigms. *Journal of Social Policy*, *40*(4), tt.739-756.

Byrne, B., Alexander, C., Khan, O., Nazroo, J., a Shankley, W. (2020). Ethnicity, Race and Inequality in the UK: State of the Nation (t. 316). Policy press.

Carers UK, 2019. Juggling work and unpaid care: a growing issue.

CIPD (Chartered Institute of Personnel and Development), 2018. Neurodiversity at work.

Clement, S., Brohan, E., Sayce, L., Pool, J. a Thornicroft, G., 2011. Disability hate crime and targeted violence and hostility: a mental health and discrimination perspective.

Clifford, S., 2020. Coronavirus and the Black, Asian and Minority Ethnic (BAME) population in Wales.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2020). Accessible public transport for older and disabled people in Wales.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2018). Is Wales Fairer? The state of equality and human rights 2018.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2020. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

Connolly, S. a Gregory, M., 2008. The part-time pay penalty: earnings trajectories of British women. *Oxford Economic Papers*, *61*(suppl_1), tt.i76-i97.

Craig, G et al, 2007, *Sure Start and Black Minority Ethnic Populations,* Yr Adran Addysg a Sgiliau

Crawley, E., Loades, M., Feder, G., Logan, S., Redwood, S. a Macleod, J., 2020. Wider collateral damage to children in the UK because of the social distancing measures designed to reduce the impact of COVID-19 in adults. *BMJ Paediatrics Open*, *4*(1).

Cyngor Celfyddydau Cymru (2019). Arolwg Omnibws Oedolion 2019: Mynychu a Chymryd Rhan.

Chwaraeon Cymru, 2019, Papur gwybodaeth am gydraddoldeb.

Chwaraeon Cymru, 2020. Arolwg ComRes 1 – Mai 2020

Dagkas, S., 2019. Social justice and intersectionality in sport, physical activity and health pedagogy. *'Race', Youth Sport, Physical Activity and Health: Global Perspectives*.

Dahlberg, L., Demack, S. a Bambra, C., 2007. Age and gender of informal carers: a population-based study in the UK. *Health & social care in the community*, *15*(5), tt.439-445.

Dale A, Lindley J, Dex S a Rafferty A (2008) Ethnic differences in women's labour market activity. Yn: Scott J et al. (goln) Women and Employment. Cheltenham, Y DU: Edward Elgar, 81–106.

Davies, S., Finney, A., a Hartfree, Y., 2016. Paying to be poor: Uncovering the scale and nature of the poverty premium.

Evans T, Cummins S, Brown T. (2013). Neighbourhood deprivation and the cost of accessing gyms and fitness centres: national study in Wales. *Health Place* 24: 16-9.

Fields in Trust, 2020. Green Space Index.

Foster, H.M., Celis-Morales, C.A., Nicholl, B.I., Petermann-Rocha, F., Pell, J.P., Gill, J.M., O'Donnell, C.A. a Mair, F.S., 2018. The effect of socioeconomic deprivation on the association between an extended measurement of unhealthy lifestyle factors and health outcomes: a prospective analysis of the UK Biobank cohort. *The Lancet Public Health*, *3*(12), tt.e576-e585.

Foster, R; Winterbotham, M; Luanaigh, A; Morris, S; Downing, C; a Felton, F; IFF Research, 2020. Gwerthusiad o Brentisiaethau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop 2015 i 2019: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 10/2021.

Gulc, B., Silversides, K., (2016) Parents' experience of services and information in the early years, Llundain: Social Mobility and Child Poverty Commission.

Hackett, K. a Cameron, A. (2017). Adolygiad o'r Dystiolaeth yn ymwneud ag Anghydraddoldeb yng Nghymru, 2016. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 21/2017

Hall, E., 2019. A critical geography of disability hate crime. *Area*, *51*(2), tt.249-256.

Hammond, G. (2021). Is the UK housing market on fragile foundations? Financial Times.

Hansen, K. a Joshi, H. 2007. Millennium Cohort Study Second Survey: A User's Guide to Initial Findings. Centre for Longitudinal Studies, Institute of Education, University of London: Llundain, Y DU.

Healthy People, 2020. Office of Disease Prevention and Health Promotion. Social cohesion.

Heykopp, L., 2018. The rising cost of living will hit low-income households hard in 2018. Sefydliad Joseph Rowntree.

Higgs, G., Langford, M. a Norman, P., 2015. Accessibility to sport facilities in Wales: A GIS-based analysis of socio-economic variations in provision. *Geoforum*, *62*, tt.105-120.

Hirsch, D. a Stone, J. (2020). Local indicators of child poverty after housing costs, 2018/19.

Llamau, 2019. Out on the Streets. LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales: Full Report Awst 2019.

Loughborough University Centre for Research in Social Policy.

Hageel A, Shah R, Viner R, Hargreaves D, Varnes L a Heys M, 2018 The social determinants of young people's health: Identifying the key issues and assessing how young people are doing in the 2010s. Health Foundation Working Paper

Hirsch, D. (2007). Chicken and Egg: child poverty and educational inequalities. CPAG Policy Briefing. Llundain: Child Poverty Action Group.

HMICFRS (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi), 2018. Understanding the difference: The initial police response to hate crime.

Hoffman, Simon. Tai Pawb. (2019). Yr hawl i dai digonol yng Nghymru: adroddiad dichonoldeb.

Iechyd Cyhoeddus Cymru Fframwaith Canlyniadau 2018/19.

Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021. Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi): Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19: Adeiladu bywydau llewyrchus i bawb yng Nghymru.

Hughes, Buddug a Jones, Kathryn (2021). *Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy’n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 3/2021.

Hughes, K., Ford, K., Davies, A., Homolova, A., Bellis, M. 2018. Ffynonellau gwydnwch a’u cysylltiadau lliniarol gyda’r niwed sy’n cael ei achosi gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Adroddiad 1: Salwch Meddwl. Astudiaeth Cymru o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) a Gwydnwch.

Jones, R. 2018. Imprisonment in Wales: A Factfile.

JRF (Sefydliad Joseph Rowntree), 2007. Experiences of poverty and educational disadvantage.

JRF (Sefydliad Joseph Rowntree), 2018. Poverty in Wales 2018.

JRF (Sefydliad Joseph Rowntree), 2020. UK Poverty Report 2019/20.

King, M., McKeown, E., Warner, J., Ramsay, A., Johnson, K., Cort, C., Wright, L., Blizard, R. a Davidson, O., 2003. Mental health and quality of life of gay men and lesbians in England and Wales: controlled, cross-sectional study. *The British Journal of Psychiatry*, *183*(6), tt.552-558.

Lewis, B. 2020. Schools' poverty gap a 'major challenge' – Estyn. BBC Cymru. Adalwyd o

Llywodraeth Cymru, 2010. Strategaeth Tlodi Tanwydd.

Llywodraeth Cymru, 2017. Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi.

Llywodraeth Cymru, 2018a. Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Llywodraeth Cymru, 2018b. Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru: 2018.

Llywodraeth Cymru, 2019a. Cyraeddiadau a’r hawl i brydau am ddim.

Llywodraeth Cymru, 2019b. Strategaeth Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019.

Llywodraeth Cymru, 2019c. Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2018/19.

Llywodraeth Cymru, 2019d. Mae'r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio.

Llywodraeth Cymru, 2019e. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19. Defnydd o’r rhyngrwyd a sgiliau digidol.

Llywodraeth Cymru, 2019f. Llesiant Cymru 2018-19.

Llywodraeth Cymru, 2019g. Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Effeithlonrwydd Ynni Anheddau.

Llywodraeth Cymru, 2020a. Cymru Fwy Cyfartal: y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19.

Llywodraeth Cymru, 2020b. Iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

Llywodraeth Cymru, 2020c. Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr Blynyddol 2019-20.

Llywodraeth Cymru, 2020d. Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2010.

Llywodraeth Cymru, 2020e. Adroddiad is-grŵp economaidd-gymdeithasol BAME COVID-19.

Llywodraeth Cymru, 2020f. Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a’r blaenoriaethau.

Llywodraeth Cymru, 2020g. Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: Tuag at Gymru ddigidol hyderus.

Llywodraeth Cymru, 2020h. Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2019-20.

Llywodraeth Cymru, 2020i. Trechu Tlodi Tanwydd 2020 i 2035 Dogfen Ymgynghori.

Llywodraeth Cymru, 2020j. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: adroddiad cynnydd 2019 i 2020.

Llywodraeth Cymru, 2020k. Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol?

Llywodraeth Cymru, 2021a. Absenoldeb o’r ysgol ymhlith plant o deulu digartref.

Llywodraeth Cymru, 2021b. Gofalu (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

Llywodraeth Cymru, 2021c. Coronafeirws (COVID-19) a’r effaith ar bobl anabl.

Llywodraeth Cymru, 2021d. Trosolwg o’r farchnad lafur.

Llywodraeth Cymru, 2021e. Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau.

Llywodraeth Cymru, 2021f. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol.

Llywodraeth Cymru, 2021g. Relative income poverty: April 2019 to March 2020.

Llywodraeth Cymru, 2021h. Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Llywodraeth Cymru, 2021i. Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19.

Marmot, M. a Wilkinson, R. gol., 2005. *Social determinants of health*. OUP Rhydychen.

Marmot, M., Allen, J., Boyce, T., Goldblatt, P., Morrison, J., 2020. Health Equity in England: The Marmot Review 10 Years On.

McMullan, L., Osborne, H., Blight, G., a Duncan, P., 2021. UK housing crisis: how did owning a home become unaffordable?

McNeil et al., 2012. Trans Mental Health Study 2012.

Merrell, J., Kinsella, F., Murphy, F., Philpin, S. ac Ali, A., 2006. Accessibility and equity of health and social care services: exploring the views and experiences of Bangladeshi carers in South Wales, UK. *Health & social care in the community*, *14*(3), tt.197-205.

Meyer, D., 2010. Evaluating the severity of hate-motivated violence: Intersectional differences among LGBT hate crime victims. *Sociology*, *44*(5), tt.980-995.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Adroddiad canlyniadau.

Offord, P., 2016. Report on the Results of a 2016 Survey conducted by the Race Council Cymru.

Owens, J a Sirois, F. 2019. Adolygiad o effaith unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ar iechyd a llesiant ac a yw pobl sy'n profi unigrwydd / ynysigrwydd cymdeithasol yn defnyddio mwy ar wasanaethau cyhoeddus. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 46/2019.

Page N, Hewitt G, Young H, Moore G, Murphy S (2021) Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20. Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, DU

Partridge, J., 2020. Home ownership among young people rises after decade of decline. The Guardian.

Power, M., Doherty, B., Pybus, K., a Pickett, K. 2020. How COVID-19 has exposed inequalities in the UK food system: The case of UK food and poverty. *Emerald Open Research*, *2*, 11

Public Health England, 2020. Improving access to greenspace: 2020 review.

Razai M S, Kankam H K N, Majeed A, Esmail A, Williams D R. Mitigating ethnic disparities in covid-19 and beyond *BMJ* 2021; 372 :m4921 doi:10.1136/bmj.m4921

Sakellariou, D. a Rotarou, E.S., 2017. Access to healthcare for men and women with disabilities in the UK: secondary analysis of cross-sectional data. *BMJ open*, *7*(8).

Samaritans, 2017. Dying from inequality: Socioeconomic disadvantage and suicidal behaviour.

Sanders, R., 2020. Digital inclusion, exclusion and participation. Retrieved from: https://www.iriss.org.uk/resources/esss-outlines/digital-inclusion-exclusion-and-participation Fel ar 20 Ebrill 2021

Schüle SA, Hilz LK, Dreger S, Bolte G. Social Inequalities in Environmental Resources of Green and Blue Spaces: A Review of Evidence in the WHO European Region. International journal of environmental research and public health. 2019;16(7):1216.

Scope, 2019. The Disability Price Tag

Sefydliad Bevan (2020) Poverty in Wales: What does the latest data say?

Sefydliad Iechyd y Byd - Comisiwn Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd a Sefydliad Iechyd y Byd, 2008. Closing the gap in a generation: health equity through action on the social determinants of health: Adroddiad terfynol y Comisiwn Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd. Sefydliad Iechyd y Byd.

Sefydliad Iechyd y Byd, Swyddfa Ranbarthol Ewrop (2016) Growing up unequal: gender and socioeconomic differences in young people's health and well-being. Sefydliad Iechyd y Byd. Swyddfa Ranbarthol Ewrop.

Sefydliad Iechyd y Byd, 2021. Children's environmental health.

Shelter Cymru, 2013. Homelessness amongst people from Black and Minority Ethnic populations in Wales.

Shelter England, 2020. Black people are more than three times as likely to experience homelessness.

Siegrist, J., Benach, J., McKnight, A., Goldblatt, P., a Muntaner, C. (2009). Employment arrangements, work conditions and health inequalities. *Report on new evidence on health inequality reduction, produced by Task group*, *2*.

Skapinakis P, Lewis G, Araya R, Jones K, Williams G. Mental health inequalities in Wales, UK: multi-level investigation of the effect of area deprivation. Br J Psychiatry. 2005 May;186:417-22. doi: 10.1192/bjp.186.5.417. PMID: 15863747.

Social Metrics Commission. (2020). Measuring poverty.

Sounderajah, V., Clarke, J., Yalamanchili, S., Acharya, A., Markar, S.R., Ashrafian, H. a Darzi, A., 2021. A national survey assessing public readiness for digital health strategies against COVID-19 within the United Kingdom. *Scientific reports*, *11*(1), tt.1-24.

Cynghrair Tlodi Bwyd De Cymru. (2019). Food Poverty in South Wales: A Call to Action.

StatsCymru, 2019. Canlyniadau fesul hawl i Brydau Ysgol am Ddim a rhyw.

StatsCymru, Canlyniadau Arholiadau Cymru 2018/19.

Stonewall Cymru, 2017. LGBT Wales Hate Crime and Discrimination.

Stringhini, S., Carmeli, C., Jokela, M., Avendaño, M., Muennig, P., Guida, F., Ricceri, F., d'Errico, A., Barros, H., Bochud, M. a Chadeau-Hyam, M., 2017. Socioeconomic status and the 25× 25 risk factors as determinants of premature mortality: a multicohort study and meta-analysis of 1· 7 million men and women. *The Lancet*, *389*(10075), tt.1229-1237.

Stringhini, S., Dugravot, A., Shipley, M., Goldberg, M., Zins, M., Kivimäki, M., Marmot, M., Sabia, S. a Singh-Manoux, A., 2011. Health behaviours, socioeconomic status, and mortality: further analyses of the British Whitehall II and the French GAZEL prospective cohorts. *PLoS medicine*, *8*(2), p.e1000419.

Sturge, G. 2020. UK Prison Population Statistics.

Suhrcke, M. a de Paz Nieves, C., 2011. The impact of health and health behaviours on educational outcomes in high-income countries: a review of the evidence.

Taylor, C. 2016. Review of the Youth Justice System in England and Wales.

Taylor-Collins, E. a Bristow, D. 2020. Gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru: Tystiolaeth o ddiwygiadau posibl. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

The Social Market Foundation. 2018. What are the barriers to eating healthy in the UK?

The Trussell Trust, 2020. New report reveals how coronavirus has affected food bank use

Treanor, M. 2012. Impacts of poverty on children and young people. Scottish Child Care and Protection Network (SCCPN), Stirling.

Twohig-Bennett C, Jones A. The health benefits of the great outdoors: A systematic review and meta-analysis of greenspace exposure and health outcomes. Environmental Research. 2018;166:628-37.

User’s Guide to Second Millennium Cohort Study, Institute for Longitudinal Studies, 2007. Universities and Colleges Admissions Service. Entry rates into higher education.

Walsh, D., Bendel, N., Jones, R. a Hanlon, P., 2010. It's not ‘just deprivation’: why do equally deprived UK cities experience different health outcomes?. *Public health*, *124*(9), tt.487-495.

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019. Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau, 2017. Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo’i Hangen Arnynt (P-05-710) – Adroddiad ar Ystyried Deiseb.

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 2017. Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd.

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2012). Socio-economic gaps in HE.

Y Swyddfa Gartref, 2020. Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019. Exploring the UK's digital divide.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a. Health state life expectancies by national deprivation deciles, Wales: 2017 to 2019.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b. Updated estimates of coronavirus (COVID-19) related deaths by disability status, England: 24 January to 20 November 2020.

Yr Adran Addysg, 2018, Outcomes for pupils eligible for free school meals and identified with special needs

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. (2015). Socio-economic, ethnic and gender differences in HE participation.

Ymchwil y Senedd, 2021. Etholiad 2021: Pa mor amrywiol yw'r Chweched Senedd?